



ATHROFA **PADARN** SANT
ST **PADARN'S** INSTITUTE

Ffuriant ar gyfer y Weinidogaeth Drwyddedig Llawlyfr 2023-24



Gweledigaeth a Gwerthoedd Athrofa Padarn Sant

Gweledigaeth

Gwasanaethu cenhadaeth weddnewidiol Duw o gariad at Gymru drwy fod yn gymuned sy'n canolbwyntio ar ffurfiant a hyfforddiant wedi'u seilio ar genhadu i holl bobl Duw.

Gwerthoedd

Cymuned sydd:

- yn edrych tuag allan
- yn ysbrydol
- yn dysgu
- yn newid
- yn ddewr

Cymuned sy'n ceisio gwasanaethu:

- cymunedau lleol
- yr Eglwys yng Nghymru
- pobl Cymraeg eu hiaith a Saesneg eu hiaith fel ei gilydd
- holl ddaearyddiaeth Cymru
- pobl o bob lliw a llun lle bynnag y maen nhw yn eu disgyblaeth a'u gweinidogaeth.

Cynnwys

Gweledigaeth a Gwerthoedd Athrofa Padarn Sant	2
Croeso!	6
Rhestr Wirio Flynyddol	7
Awst	7
Medi	7
Hydref	7
Tachwedd	8
Rhagfyr	8
Ionawr	8
Chwefror	8
Mawrth	8
Ebrill	8
Mai	9
Mehefin	9
Staff Athrofa Padarn Sant	9
Cysylltiadau defnyddiol:	9
Cysylltu a thiworiaid drwy'r cyfryngau cymdeithasol	10
Astudio Diwinyddiaeth	11
Diwinyddiaeth ac Ymarfer Gweinidogaeth	12
Esgob William Morgan	13
Griffith Jones (Llanddowror)	14
Mari Jones	14
Celloedd Ffurfiannol	15
Nodau Celloedd Ffurfiannol	15
Strwythur y Cyfarfod	16
Nodyn ar bresenoldeb	17
Nodyn ynglŷn â chyfrinachedd o fewn Celloedd Ffurfiannol	17
Adrodd ar Ffurfiant	18
Strwythur y cyfarfodydd	18
Adrodd ar eich Ffurfiant	19
Adroddiadau i'r Esgob	19
Pan mae diffyg cynnydd: Adroddiadau arbennig	19
Disgwyliadau Ffurfiannol ar gyfer y Weinidogaeth Drwyddedig Egwyddorion a Nodweddion	20

A. Hyder, Sicrwydd a Ffydd Aeddfed	20
B. Gweithio mewn Tîm	21
C. Bod yn Greadigol, yn Hyblyg ac yn Abl i Ymaddasu	21
CH. Wedi' u gwreiddio mewn Eglwysoleg ac Ysbrydolrwydd Anglicanaidd	21
D. Yn Frwd dros Genhadu ac wedi Ymrwymo i Dwf	22
DD. Arweinwyr Strategol a Thywyswyr	22
Cefnogaeth a chymorth bugeiliol	22
Manylion Cyswllt ar gyfer Cyfarwyddwyr Ysbrydol	23
Dysgu Cymraeg	23
Y Rhaglen Dydd Mercher – Dydd Gwener (Ymgeiswyr Llawn Amser)	24
Addoli	24
Cymuned	24
Cyfleoedd Dysgu Ychwanegol	24
Polisiâu a ble i ddod o hyd iddyn nhw	25
Presenoldeb	25
Beth yw goblygiadau colli unrhyw agwedd ar y cwrs?	26
Beth yw absenoldebau wedi' u hawdurdodi a heb eu hawdurdodi?	26
Proffesiynoldeb, cwrteisi ac ymddiriedaeth	26
Cyfrinachedd o fewn Ffuriant ar gyfer y Weinidogaeth Drwyddedig a Diwinyddiaeth ar gyfer Bywyd	27
Gwyliau	29
Gwybodaeth ymarferol	31
Grantiau	31
Treuliau	31
Ffurflenni	35
Ffurflen Hunanasesu	44
Egwyddorion a Nodweddion	45
A. Hyder, Sicrwydd a Ffydd Aeddfed	45
B. Gweithio mewn Tîm	45
C. Bod yn Greadigol, yn Hyblyg ac yn Abl i Ymaddasu	46
Ch. Wedi' u gwreiddio mewn Eglwysoleg ac Ysbrydolrwydd Anglicanaidd	46
D. Yn Frwd dros Genhadu ac wedi Ymrwymo i Dwf	47
Dd. Arweinwyr Strategol a Thywyswyr	47
Hyfforddiant a Datblygiad yn y Dyfodol	48

Adolygiad Blynyddol Cell Ffurfiannol	49
Adroddiad Cell Ffurfiannol	50
Ffurflen absenoldeb o gyfnod preswyl DYG.....	51

Croeso!

Ac yr ydym ni i gyd, heb orchudd ar ein hwyneb, yn edrych, fel mewn drych, ar ogoniant yr Arglwydd ac yn cael ein trawsffurfio o ogoniant i ogoniant, yn wir lun ohono ef. A gwaith yr Arglwydd, yr Ysbryd, yw hyn.

2 Corinthiaid 3:18

Croeso i'r llawlyfr hwn sy'n esbonio agweddau gwahanol ar eich hyfforddiant a sut maen nhw i gyd yn cyd-fynd â'i gilydd. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ar unrhyw adeg mae croeso i chi gysylltu â Lyn Davies, cydlynnydd y cwrs, â'ch tiwtor neu â fi, y Deon Hyfforddiant Cychwynnol i Weinidogion. Mae'r holl fanylion cyswllt yn y llawlyfr hwn.

Gelwir paratoi ar gyfer y weinidogaeth yn 'ffurfiant' oherwydd mae'n ymwneud â mwy na dysgu sgiliau – mae hefyd yn ymwneud â chael ein ffurfio, yn ddisgybl ac yn weinidog, yn fersiwn orau ohonom ni ein hunain. Fel y mae'r dyfyniad uchod o ail lythyr Paul at y Corinthiaid yn ein hatgoffa, gwaith yr Ysbryd yw ffurfiant (neu drawsnewidiad). Ni all tasgau neu aseiniadau ynddynt eu hunain ein paratoi'n ddigonol ar gyfer y weinidogaeth, mae ffurfiant yn ymwneud â sicrhau ein bod yn agored i Dduw er mwyn iddo weithio ynom ni a thrwy eraill. Felly ein rôl yw eich annog i ddatblygu arferion twf gydol oes mewn gweddi, dysgu diwinyddol a myfyrdod ar ymarfer a sicrhau eich bod yn cyrraedd y broses drwyddedu neu ordeinio (yn ddiau yn bryderus, ond wedi'ch cyffroi hefyd...) yn barod ar gyfer cenhadaeth a gweinidogaeth yn eglwys Duw, wedi'ch herio a'ch annog i dyfu'n berson y mae Duw yn galw arnoch chi i fod. Rwy'n edrych ymlaen at rannu'r daith hon gyda chi.

Cofion cynnes,

Manon

Y Parchedig Dr Manon Ceridwen James
Deon Hyfforddiant Cychwynnol i Weinidogion



Rhestr Wirio Flynyddol

Gydol y flwyddyn:

- **Sicrhau fod y dyddiadau i gyd yn eich dyddiadur**
- Danfon ffurflenni adborth pregethu at reporting@stpadarns.ac.uk ar ôl pob pregeth
- Cyfarfodydd celloedd ffurfiannol (8 i'r rhai sy'n hyfforddi yn rhan-amser gydol y flwyddyn)
- Cadw dyddiadur o fyfyrddodau a nodyn o dasgau lleoliad a'ch ymateb iddynt. Gall fod yn gryno ac ni fydd yn cael ei rannu â ni ond gall fod yn sail i sgysiau â thiworiaid ac ar gyfer eich hunanasesiad yn ystod y flwyddyn olaf
- Sicrhau bod y Cofnod Ffuriant yn gyfredol a bod gennym wybodaeth gyswllt gyfredol a'ch bod yn gweld fersiyniau diwygiedig ohono yn rheolaidd
- Sicrhau bod gennych gyfarfodydd rheolaidd yn y dyddiadur gyda'ch goruchwyliwr lleoliad ar gyfer goruchwylio gydol y flwyddyn, o leiaf 8-12.
- Sicrhau eich bod yn cyfarfod â'ch tiwtor o leiaf unwaith y mis. Eich cyfrifoldeb chi yw trefnu'r cyfarfodydd hyn, peidiwch ag aros i diwtor i gysylltu â chi chi sydd fod cysylltu a nhw
- Cynllunio a rhedeg prosiect efengylu (unwaith yn ystod eich hyfforddiant)

Awst

- Ysgol Hâf

Medi

- Cytuno ar ddyddiadau pregethu, naill ai am y tymor, neu hyd yn oed am y flwyddyn!
- Cyfarfod 1 wrth 1 gyda'ch tiwtor.
- Os ym mlwyddyn 1 sefydlu cytundeb lleoliad gyda Chris Thomson neu diwtor dirprwyedig a goruchwyliwr lleoliadau, oni bai bod hyn eisoes wedi digwydd.

Hydref

- Darllen neu fyfyrrio paratoadol ar gyfer y penwythnos preswyl.
- Penwythnos Diwinyddiaeth ac Ymarfer Gweinidogaeth
- Cyfarfod 1 wrth 1 gyda thiwtor (oni bai bod hyn wedi digwydd ym mis Medi).
- Os ydych yn eich **flwyddyn olaf**, bydd y tîm gwasanaethau cymorth yn cysylltu â phawb sydd ynghlwm â'ch hyfforddiant i ofyn am adroddiad a hefyd yn gofyn i chi ysgrifennu hunan asesiad. Sicrhewch fod pob asesiad pregeth wedi ei ddychwelyd i'r Athrofa.

Tachwedd

- Os ydych yn y **flwyddyn olaf**, ceisiwch annog eich goruchwyliwr lleoliadau a'ch arweinydd cell ffurfiannol i gyflwyno eu ffurflenni ar gyfer y broses adrodd i'r Esgob ac ysgrifennu eich hunanasesiad eich hun. Dylid dychwelyd yr holl ffurflenni i reporting@stpadarns.ac.uk heb fod yn hwyrach na **dydd Llun 6 Tachwedd 2023**.
- Cyfarfod 1 wrth 1 â'ch tiwtor

Rhagfyr

Y flwyddyn olaf YN UNIG - cwblhau adroddiadau i'r Esgob. Cyfarfod â'r tiwtor i drafod yr adroddiad i'r Esgob a chytuno arno. Adroddiadau wedi'u llofnodi i'w dychwelyd erbyn dydd **Mercher 6fed Rhagfyr 2023 fan bellaf. Bydd yr adroddiadau yn cael eu danfon at yr Esgob erbyn 13 Rhagfyr fan bellaf.**

Cyfarfod 1 wrth 1 â'ch tiwtor

Ionawr

- (Cytuno ar ddyddiadau pregethu)
- Darllen neu fyfyrio paratoadol ar gyfer penwythnos preswyl DYG.
- Cyfarfod 1 wrth 1 gyda'ch tiwtor

Chwefror

- Penwythnos preswyl Diwinyddiaeth ac Ymarfer Gweinidogaeth (DYG)
- Cyfarfod 1 wrth 1 gyda'ch tiwtor.

Mawrth

- **Ymgeiswyr blwyddyn un yn unig** – casglu ffurflenni ar gyfer y broses adrodd i'r Esgob ac ysgrifennu eich hunanasesiad. Ffurflenni i'w dychwelyd wedi eu harwyddo i reporting@stpadarns.ac.uk erbyn **dydd Gwener 9 Chwefror** ar yr hwyraf. Bydd angen i chi arwyddo yr adroddiad gorffenedig erbyn **dydd Gwener 15 Mawrth**.
- Cyfarfod 1 wrth 1 gyda'ch tiwtor.

Ebrill

- (Cytuno ar ddyddiadau pregethu)
- Darllen neu fyfyrio paratoadol ar gyfer cyfnod preswyl DYG.
- Cyfarfod 1 wrth 1 gyda'ch tiwtor.

Mai

- Penwythnos preswyl DYG
- Cyfarfod 1-1 gyda'ch tiwtor
- **Blwyddyn olaf** – gorffen eich lleoliad tua chanol mis Mai
- **Y rhai nad yw ar eu blwyddyn olaf** - meddwl am unrhyw drafodaethau y mae angen eu cael ynglŷn â'ch llwybr dysgu

Mehafin

- **Y rhai nad yw ar eu blwyddyn olaf** - ffurflenni lleoliad i:
reporting@stpadarns.ac.uk ac i Chris Thomson
chris.thomson@stpadarns.ac.uk
- Ffurflen adolygu cell ffurfiannol i reporting@stpadarns.ac.uk ac i Jordan Hillebert Jordan.hillebert@stpadarns.ac.uk **erbyn 31 Mai**
- Dylai ffurflenni curadiaeth gael ei gyflwyno i Lyn Davies erbyn yr ysgol haf.
- **Cyfarfod 1 wrth 1 gyda'ch tiwtor os nad ydych yn gorffen.**

Staff Athrofa Padarn Sant

Yn gyffredinol, eich tiwtor fydd eich pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer cwestiynau neu broblemau a bydd yn cwrdd â chi'n rheolaidd drwy gydol eich cyfnod hyfforddi. Byddwn yn dweud wrthyfch pwy yw eich tiwtor ac yn rhoi ei manylion cyswllt i chi yn yr ysgol haf. Bydd y tiwtor yn gyfrifol am gadw eich cofnod ffurfiant yn gyfoes, a bydd ar gael i'ch cefnogi yn fugeiliol ac yn ffurfiannol. Bydd ar gael i drafod eich cryfderau a'r heriau y byddwch yn eu hwynebu a bydd yn ysgrifennu'r drafft cyntaf o'r adroddiad i'r esgob.

Mae'n debyg y byddwch yn dod i gysylltiad â phob un o diwtoriaid Athrofa Padarn Sant rhyw ffordd neu'i gilydd drwy gydol eich cyfnod hyfforddi yn ogystal â nifer o'r staff. Gweler y wefan am ragor o wybodaeth am y gwahanol rolau a chyfrifoldebau.

Cysylltiadau defnyddiol:

Lyn Davies (Cydlynnydd uwch)
0292 0838079

Lyn.davies@stpadarns.ac.uk

Canon Dr Manon Ceridwen James (Deon)
07776 591 799/02920838002 (Mer- Gwe)

Manon.c.james@stpadarns.ac.uk

Y Parchedig Helen Rees
Tiwtor mewn Addysg Diwinyddol
07776 589 732

Helen.rees2@stpadarns.ac.uk

Y Parchedig Dr Jordan Hillebert
Cyfarwyddwr Ffuriant i'r Weinidogaeth
02920 838073

Jordan.hillebert@stpadarns.ac.uk

Rev'd Chris Thomson
Tiwtor mewn Addysg Cyd-destunol
07508527569

Chris.thomson@stpadarns.ac.uk

Dr Elizabeth Corsar
Arweinydd Rhaglen BTh a Tiwtor mewn Astudiaethau Beiblaidd
02920 838004

Elizabeth.corsar@stpadarns.ac.uk

Y Parch Dr Siôn Aled Owen
Tiwtor mewn Diwinyddiaeth Gymreig
07852 909364

Sion.aledowen@stpadarns.ac.uk

Parch Ganon Richard Lowndes
Tiwtor Ffuriant

richard.lowndes@stpadarns.ac.uk

Cysylltu a thiwtoriaid drwy'r cyfryngau cymdeithasol

Cysylltwch â thiwtoriaid drwy ddefnyddio eu manylion cyswllt gwaith yn unig megis ffôn, cyfeiriad e-bost Athrofa Padarn Sant ac ar Teams os gwelwch yn dda. (gall Teams fod yn ddefnydiol iawn at bwrpasau sgwrs) Bydd unrhyw gyswllt drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn cael ei hanwebyddu.

Mae'r rhaglen Ffuriant ar gyfer y Wenidogaeth Drwyddedig ym Mhadarn Sant yn cynnwys pedair maes hyfforddiant, ac maen nhw i gyd llawn mor bwysig a'i gilydd. Yn Athrofa Padarn Sant un o'n prif egwyddorion yw **ffuriant integredig**, yn y modd bod pob agwedd o hyfforddi yn bwydo ei gilydd ac yn eich dyfnhau.

Astudio Diwinyddiaeth

Bydd mwyafrif yr ymgeiswyr yn astudio'r rhaglen 'Diwinyddiaeth ar gyfer Bywyd' (BTh, DipHE, CertE mewn Diwinyddiaeth ar gyfer Gweinidogaeth a Chenhadaeth Disgyblaeth) a ddilyswyd gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Yn wir, efallai eich bod eisoes wedi dechrau ar y cwrs hwn tra roeddech yn paratoi ar gyfer dirnadaeth. Mae hwn yn gwrs achrededig gall arwain at radd yn y pendraw. Fel y cytunwyd â ni yn eich cynllun hyfforddi, byddwch yn astudio i lefel tystysgrif (lefel 4), lefel diploma (lefel 5) neu lefel gradd (lefel 6).

Os oes gennych radd mewn diwinyddiaeth eisoes, gallwch astudio ar gyfer cymhwyster ôl-raddedig, fel arfer gyda'n gradd Meistr, sydd wedi'i dilysu gan Brifysgol Durham. Yn dibynnu ar faes llafur y radd wreiddiol mewn Diwinyddiaeth, efallai y bydd angen i chi astudio modiwl mewn meysydd o bwysigrwydd allweddol i ffurfiant gweinidogaeth (e.e. litwrgi, diwinyddiaeth ymarferol, cenhadu ac efengylu) nad ydych chi wedi'u hastudio o'r blaen. Bydd nifer fach o ymgeiswyr ag anghenion/astudiaethau blaenorol mwy anarferol yn dilyn rhaglen bersonol o astudiaeth ddiwinyddol. Yn yr achosion hyn, bydd yn ddefnyddiol i ni gael rhestr o'r modiwlau yr ydych chi wedi'u hastudio eisoes.

Mae llawlyfr gwahanol ar gyfer eich cwrs diwinyddiaeth. Mae ymgeiswyr llawn amser yn astudio diwinyddiaeth ar safle Athrofa Padarn Sant yng Nghaerdydd ac mae ymgeiswyr rhan-amser yn dilyn cwrs Diwinyddiaeth ar gyfer Bywyd yn eu hardal leol. Mae'r maes llafur yr un peth, fodd bynnag.

Credwn fod diwinyddiaeth yn trawsnewid ein calonnau yn ogystal â'n meddyliau ac yn ein siapio fwyfwy i ddelw Crist (gweler I Ioan 3:2 ar y berthynas rhwng adnabod / gweld Duw a chael ein trawsnewid yn Nuw).

Diwinyddiaeth ac Ymarfer Gweinidogaeth

Dysgir Diwinyddiaeth ac Ymarfer Gweinidogaeth i ymgeiswyr rhan a llawn amser ar benwythnosau (ac wythnos) preswyl sef Ysgol Haf unwaith y flwyddyn a thair penwythnos mewn gwahanol rhannu o Gymru. **Mae'n hanfodol bod yn bresennol ym mhob un o'r rhain** gan eu bod yn rhan annatod o'r hyfforddiant. Dyma pryd y daw'r gymuned gyfan ynghyd i weddio, cymdeithasu, dysgu ac addoli.

Nodwch y dyddiadau yn eich dyddiadur. Maen nhw'n dechrau â swper gyda'r nos ar nos Wener (tua 7pm) ac yn gorffen gyda phe cyn cinio ddydd Sul. Bydd croeso i bartneriaid / gŵr neu gwraig ymuno a ni yn y cyfnod cymdeithasol yn dilyn swper ar y nos Wener neu'r nos Sadwrn. Byddwn yn rhoi gwybod cyn bob cyfnod preswyl pa noson sy'n agored i bartneriaid / priod. Polisi newydd yw hon byddwn yn ei dreialu eleni a'r gobaith yw y bydd yn rhoi fwy o gyfle i bartneriaid / priod ymgeiswyr i deimlo'n fwy o rhan o'ch taith ffurfiannol. Cysylltwch â Lyn os ydych angen gwybod lleoliadau'r cyfnodau preswyl cyn iddyn nhw gael eu hysbysebu, am rhesymau personol neu at ddibenion gwaith. Mae'r lleoliadau fel arfer mewn gwestai, naill ai yng ngogledd Cymru neu'r de.

Mae gan bob penwythnos flaenoriaeth weinidogaeth a nodwyd gan fainc yr esgobion:

Blwyddyn A

Ysgol Hâf - Ysbrydolrwydd

Hyder, Sicrwydd a Ffydd Aeddfed

Wedi'u gwreiddio mewn Eglwysoleg ac Ysbrydolrwydd Anglicanaidd

Bod yn Greadigol, yn Hyblyg ac yn Abl i Ymaddasu

Blwyddyn B

Ysgol Haf – Arwain eich Eglwys i Dŵf

Gweithio mewn tîm

Yn Frwd dros Genhadu ac wedi Ymrwymo i Dwf

Arweinwyr Strategol

Eleni Blwyddyn B ydyw ac mae'n siaradwyr yn cynnwys:

13-15 Hydref 2023 (Cwمبرân)

Esgob Mary Stallard a Parch Ganon Ddr Trystan Owain Hughes

2-4 Chwefror 2024 (Wrecsam)

Archesgob Andrew John a'r Athro Catrin Hâf Williams

10-12 Mai 2024 (Abertawe)
Parch Ddr Mark Oakley a'r Esgob Cherry Vann

Cynhelir ysgol haf arbennig bob blwyddyn i'r rhai yn eu trydedd flwyddyn ar y thema **Arweinyddiaeth ar gyfer y Byd Heddiw**, i baratoi'r rhai a fydd yn chwarae rhan sylweddol mewn arweinyddiaeth yn yr Eglwys yn y dyfodol. Bydd cymysgedd o siaradwyr gwahanol ym mhob cyfnod preswyl felly er y gall themâu fod yn debyg ym mhob bloc dwy flynedd, bydd meysydd dysgu newydd i'r rheiny sydd ar raglen tair blynedd.

Yn ystod ein cyfnodau preswyl, byddwn yn addysgu'r rhaglen Diwinyddiaeth ac Ymarfer Gweinidogaethol (DYG).

Mae'r teitl Diwinyddiaeth ac Ymarfer Gweinidogaeth yn fwriadol ac rydym eisiau pwysleisio hyd yn oed yn y rhan hon o'r hyfforddiant, ein bod yn credu mewn hyfforddiant ffurfiannol integredig. Felly ni allwn wahanu sgiliau'r weinidogaeth oddi wrth y ddiwinyddiaeth sy'n sail iddi.

I'r rhai sy'n hyfforddi ar gyfer gweinidogaeth fwy cyffredinol, byddwch yn dilyn y cwrs Diwinyddiaeth ac Ymarfer Gweinidogaethol yng ngharfan eich blwyddyn. Er hwylustod, rydym wedi enwi'r carfannau hyn ar ôl ffigurau crefyddol hanesyddol Cymru:

- **Esgob William Morgan**
- **Griffith Jones (Llanddowror)**
- **Mari Jones**

Darllenwch eu storïau, os nad ydych yn gyfarwydd â'u dylanwad ar grefydd a ffydd yng Nghymru.

I'r rhai sy'n dilyn gweinidogaeth fwy arbenigol, byddwn yn datblygu llwybr i chi drwy'r rhaglen a fydd wedi'i deilwra'n arbennig ar eich cyfer chi. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn dilyn llwybr William Morgan ac yna Griffith Jones neu Mari Jones yn dibynnu ar eu doniau a'r hyn y mae'r esgobaeth yn gofyn i ni weithio arno gyda chi, ym mha bynnag drefn sy'n gwneud synnwyr. Yn achlysurol, bydd y rhai nad ydynt yn hyfforddi ar gyfer gweinidogaeth bregethwrol yn dilyn llwybr Mari Jones am un flwyddyn a llwybr Griffith Jones y flwyddyn ganlynol.

Esgob William Morgan

Mae cwrs eleni yn eich cyflwyno i sgiliau gweinidogaethol sylfaenol, gyda phwyslais ar ddysgu sut i bregethu a sut i lunio ac arwain gwasanaethau. Cewch eich cyflwyno i sgiliau bugeiliol sylfaenol fel gwranddo yn ogystal ag ystyried pŵer, ffiniau a chynulleidfaoedd iach. Byddwch yn dysgu am ddulliau seicolegol sylfaenol i'n help i

ddeall pobl o bob oedran yn well. Byddwch yn dysgu sut i greu diwylliant arloesol, yn ogystal â sut i arloesi yn yr 'anialwch'.

Griffith Jones (Llanddowror)

Mae eleni yn adeiladu ar y sylfeini a osodwyd yn eich blwyddyn gyntaf (neu, i rai, ail). Byddwch yn canolbwyntio yn yr ysgol haf ar yr heriau a'r cyfleoedd bugeiliol ac efengylaidd a ddaw yn sgil ymgysylltu â phobl o wahanol oedrannau a gwahanol genedlaethau. Byddwch hefyd yn ystyried beth mae arloesi yn ei olygu, yn enwedig yn ein cyd-destun (Cymreig) ein hunain, gan ddysgu hefyd o'r Beibl a'r cymeriadau arloesol a geir yno. Byddwch yn ystyried sut i bregethu yn efengylaidd yn ogystal â phregethu mewn gwahanol ddigwyddiadau bywyd. Byddwch yn darganfod dulliau allweddol ar gyfer datblygu timau, a sut i annog iechyd ysbrydol, emosiynol a meddyliol da, yn ogystal ag edrych ar gaplaniaeth.

Mari Jones

Mae eleni yn adeiladu ar y sylfeini a osodwyd yn eich blwyddyn gyntaf (neu, i rai, ail). Byddwch yn canolbwyntio i ddechrau ar sut i ddatblygu cymunedau Cristnogol newydd, gyda chwrs wedi'i ddyfunio'n arbennig a gaiff ei gyflwyno yn yr ysgol haf. Yn ystod y penwythnosau preswyl byddwch hefyd yn datblygu eich sgiliau pregethu ymhellach gan balu'n ddyfnach i strwythurau pregethau a phwysigrwydd adrodd storïau. Byddwch yn dysgu mwy am sut i greu gwasanaethau deniadol ar gyfer pob oed. Bydd sesiwn hefyd ar sut i ofalu amdanoch chi eich hun yn y weinidogaeth a dysgu mwy am adnoddau 'Digwyddiadau Bywyd' fel deunydd i helpu cenhadaeth yn ogystal â gofal bugeiliol. Byddwch hefyd yn dysgu pob math o sgiliau digidol ar gyfer y weinidogaeth yn ogystal â edrych ar wersi o hanes ynglŷn â sut i arloesi, gan edrych yn arbennig ar gyfnodau o adfywiad ac adnewyddiad.

Celloedd Ffurfiannol

Yn ystod yr hyfforddiant byddwch yn ymuno â Chell Ffurfiannol. Y Parchedig Dr Jordan Hillebert sy'n gyfrifol am gelloedd ffurfiannol. Y grŵp hwn, lle mae pawb yn cefnogi ei gilydd, yw'r lle i ystyried sut rydych chi'n integreiddio pob agwedd ar eich ffurfiant, boed hynny'n sut rydych chi'n tyfu ac yn cael eich herio'n ysbrydol, newid yn eich perthnasoedd, y sgiliau gweinidogaeth rydych chi'n eu datblygu neu'ch dysgu diwinyddol. Y peth allweddol yw eich bod yn gallu cysylltu'r holl agweddau hyn ar ffurfiant gyda'i gilydd, ac mae'r gell yn lle pwysig i wneud hyn.

Bydd y rhai sydd ar gwrs hyfforddi llawn amser yn cyfarfod bob pythefnos ag aelodau o'u cell yn Athrofa Padarn Sant, Caerdydd. Bydd y rhai sydd ar gwrs hyfforddi rhan-amser yn ymuno â grŵp o bobl sy'n hyfforddi yn eu hardal ac yn cyfarfod â'r grŵp hwnnw o leiaf wyth gwaith drwy gydol y flwyddyn. Mae'r celloedd yn cael eu hwyluso gan Dywysydd Ffurfiannol wedi'i hyfforddi a fydd hefyd yn adrodd yn flynyddol ar eich cynnydd, ond nid fel rheol ar fanylion yr hyn a rennir yn y grwpiau.

Mae mewnwelediadau Joanna Collicutt yn ei llyfr *The Psychology of Christian Character Formation* yn sail i'n dealltwriaeth o Gelloedd Ffurfiannol, a holl broses ffurfiant mewn gwirionedd. Mae'n nodi:

Christian spiritual formation can be understood as the transforming work of the Spirit in every aspect of the life of the believer..... First, formation is seen to involve the whole of a person's life – embodied thinking, feeling, acting and being in relationship. Second, as Paul asserts in.....2 Corinthians, because of the nature of the Spirit, formation results in freedom. (Collicutt 2015 pennod 1).

Mae Collicutt yn diffinio'r rhyddid hwn fel:

The work of the Spirit is not to change a person into something she is not, but to enable that person to be truly and fully herself. The Spirit is, after all, also the authentic Spirit of truth (John 14.17; 15.26; 16.13). (Collicutt 2015 pennod 1).

Fel rheol ni fydd y Gell yn cynnwys mwy na 5 o bobl a dim llai na 3 o bobl.

Nodau Celloedd Ffurfiannol

Prif nodau ffurfiannol y gell yw:

- Meithrin mwy o hyder a sgiliau wrth hunanfyfyrion (asesu eich cryfderau a'ch gwendidau eich hun, ymchwilio i gredoau/tybiaethau a allai fod wedi arwain at gamau/ymateb emosiynol penodol, etc.)

- Integreiddio'r amrywiol agweddau ar hyfforddiant a ffurfiant (ymchwilio i sut mae eich daliadau/astudiaethau diwinyddol wedi llywio eich gweinidogaeth ac i'r gwrthwyneb, beth rydych chi wedi'i ddysgu amdanoch chi eich hun neu am Dduw ar eich lleoliad, etc.)
- Meithrin mwy o hyder a sgiliau o ran gwrando'n astud (crynhoi'n gywir yr hyn a glywyd, gofyn cwestiynau defnyddiol/perthnasol, dangos gofal a pharch, amlygu meysydd twf neu botensial ar gyfer datblygiad pellach, etc.)
- Bod yn fwy agored (caniatáu i chi eich hun gael eich adnabod, ceisio dysgu gan eraill, myfyrio ar faterion sydd heb eu datrys, etc.)
- Cyfrannu at ffurfiant pobl eraill (darparu anogaeth, her briodol, etc.)

Rydym yn disgwyl i bob aelod o'r grŵp:

- Ei gwneud hi'n flaenoriaeth i fod yn bresennol
- Paratoi gan sicrhau bod ganddynt rywbeth go iawn i'w rannu
- Bod yn barod i gyfrannu'n gadarnhaol at ffurfiant eraill yn y grŵp
- Parchu cyfrinachedd y grŵp. Nid oes gan unrhyw aelod o'r grŵp fyth hawl i siarad am ddeunydd rhywun arall mewn unrhyw gyd-destun. (Byddai torri cyfrinachedd yn y modd hwn yn fater ffurfiannol difrifol ac yn ddarostyngedig i'n polisiâu ymddygiad ymgeiswyr yn ystod hyfforddiant).

Dylai'r grŵp ddechrau bob blwyddyn drwy ailedrych ar y disgwyliadau hyn a chytuno arnynt gyda'i gilydd.

Strwythur y Cyfarfod

- 1.** Addoli agoriadol anffurfiol i'w rannu ymhlith ymgeiswyr
- 2.** Rhannu profiad diweddar yn unigol - mae gan bob aelod o'r Gell Ffurfiannol gyfanswm o 20-25 munud i gyflwyno rhywbeth yr ydych yn ei ystyried yn arwyddocaol yn eich ffurfiant. Gallai hyn fod yn rhywbeth sydd wedi digwydd ar leoliad, traethawd sy'n peri anhawster i chi, sgwrs bwysig â chyfoedion neu diwtor neu oruchwyliwr, rhywbeth newydd yr ydych wedi'i ddysgu amdanoch chi eich hun, neu hyd yn oed sgil newydd. Cofiwch fyfyrion ar faterion cadarnhaol yn ogystal â'r materion anoddach y gallech fod wedi dod ar eu traws.
- 3.** Aelodau'r grŵp yn ymateb - drwy ofyn cwestiynau i helpu'r unigolyn i ymchwilio i'r materion. Gall hyn helpu i roi eglurder neu ddyfnhau'r profiad ffurfiant. Ceisiwch beidio â chynnig cyngor ond gadewch i'r unigolyn archwilio

ei brofiad yn llawn. Gall aelodau'r grŵp hefyd roi adborth ar gryfderau a/neu'r potensial ar gyfer twf yn y dyfodol.

4. Cofiwch mai dyma'r lle i integreiddio'r hyfforddiant. Byddwch yn ymwybodol o gysylltiadau diwinyddol ac ysbrydol â'r hyn sy'n cael ei rannu. A oes goblygiadau neu gyseiniannau ymarferol neu alwedigaethol â'r hyn rydych chi'n ei ddysgu neu'n ei astudio?
5. Efallai y bydd yn briodol dod ag amser pob unigolyn i ben â gweddi, boed hynny mewn geiriau neu ddistawrwydd cyn symud at y person nesaf. Neu, gall grwpiau benderfynu gweddi dros y naill ar llall ar ddiwedd cyfarfod y gell.
6. Gweddi i gloi

Nodyn ar bresenoldeb

Mae celloedd ffurfiannol yn chwarae rhan ganolog mewn hyfforddiant a ffurfiant ym Mhadarn Sant. Disgwyliwn i bob ymgeisydd roi blaenoriaeth i fod yn bresennol. Bydd dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd celloedd ffurfiannol yn cael eu trefnu gyda'r Tywysydd ymlaen llaw. Os na allwch fynychu cyfarfod celloedd ffurfiannol, rhowch wybod i'ch Tywysydd Ffurfiannol a'ch tiwtor personol. Mae'r Tywysydd Ffurfiannol hefyd yn gyfrifol am gadw golwg ar bresenoldeb a hysbysu'r Cyfarwyddwr Ffurfiant os yw unrhyw aelod o'r grŵp yn cael trafferth trefnu neu fynychu cyfarfodydd.

Nodyn ynglŷn â chyfrinachedd o fewn Celloedd Ffurfiannol

Er bod y cyfarfodydd yn gyfrinachol yn yr ystyr nad ydym yn disgwyl i ymgeiswyr siarad am yr hyn a drafodir y tu allan i'r gell, bydd Arweinydd y Cell Ffurfiannol yn rhoi adborth fel rhan o broses adrodd ar ffurfiant pob ymgeisydd. Y lle y gallwch siarad yn hollol rydd a chyfrinachol y tu allan i'r cwrs yw gyda'ch Cyfarwyddwr Ysbrydol. Rydym yn annog pob ymgeisydd yn gryf i gael cydymaith ysbrydol, boed yn Gyfarwyddwr Ysbrydol, neu'n fentor doeth y gellir ymddiried ynddo. Mae rhagor o wybodaeth am gyfarwyddwyr ysbrydol a'n polisi cyfrinachedd ar ddiwedd y llawlyfr hwn.

Llyfryddiaeth

Collicutt, Joanna. (2015) **The Psychology of Christian Character Formation**. Llundain: Hymns Ancient & Modern Ltd. Rhifyn Kindle.

Adrodd ar Ffuriant

Agwedd bwysig ar ffuriant fydd y cyfarfodydd rheolaidd a gynhelir rhyngoch chi a'ch tiwtor personol er mwyn trafod a diweddarau'r cofnod ffuriant. Bwriedir i'r cyfarfodydd hyn fod yn heriol, gonest a chefnogol ac yn fforwm allweddol ar gyfer eich datblygiad a'ch twf fel gweinidog. Disgwylir y bydd y tiwtor yn cyfarfod â phob ymgeisydd unwaith y mis naill ai mewn person neu ar-lein. Gall hyn fod yn ystod cyfnod preswyl. Cysylltwch efo'ch tiwtor i drefnu hyn. Nid oes angen i'r cyfarfod fod yn rhy hir, tua 30 munud.

Bydd y cofnod ffuriant hwn hefyd yn llywio ein hadborth i'ch esgob yng 'nghyfarfod adolygu ymgeiswyr' pob chwe misol pob esgobaeth ac yn y pen draw bydd yn cynnig tystiolaeth ar gyfer eich adroddiad i'r esgob. Ceir enghraifft o'r ffurflen yng nghefn y llawlyfr hwn.

Strwythur y cyfarfodydd

1. Gweddi
2. Cyfle byr i gael sgwrs am ymarferoldeb hyfforddiant
3. Y tiwtor a'r ymgeisydd yn penderfynu pa griteria i'w d/trafod
4. Trafodaeth ar ffuriant yr ymgeisydd yn y maes hwn
5. Trosglwyddo'r drafodaeth i Dduw drwy weddi

Mae gennym ddiddordeb hefyd yn eich cryfderau a'ch gwendidau a sut rydych yn datblygu ac yn tyfu fel gweinidog. Wrth feddwl am hyn efallai yr hoffech chi fyfyrion ar ganlyniadau dysgu yr Eglwys yng Nghymru ar gyfer y gwahanol weinidogaethau. Cwestiwn pwysig i ni felly yw sut yr ydych ynn ymateb i adborth, ac weithiau er mwyn ymgysylltu â'r cofnod ffuriant efallai y byddwn yn defnyddio Ffenestr Johari hefyd - pa argraff ydych chi'n ei rhoi efallai heb sylweddoli hynny, sy'n effeithio ar eich gweinidogaeth?

The Johari Window

1 Open Known to self and to others	2 Blind Not known to self but known to others
3 Hidden Known to self but not to others	4 Unknown Not known to self or others

Cynhelir y sgysiau hyn yn yr ysbryd fod gyda chi yn ystod eich ffurfiant. Rydym i gyd yn tyfu ac yn datblygu fel disgyblion a gweinidogion. Mae croeso i chi edrych ar eich Cofnod Ffuriant ar unrhyw gam o'ch hyfforddiant.

Adrodd ar eich Ffuriant

Rydym yn adrodd ar eich ffurfiant mewn sawl ffordd wahanol. Y prif gyfle yw pan fydd y Pennaeth a'r Deon yn cyfarfod â phob esgob ddwywaith y flwyddyn mewn cyfarfod adolygu ymgeiswyr. Yn y cyfarfodydd hyn byddwn yn trafod eich ffurfiant a'ch datblygiad fel gweinidog. Mae hyn yn seiliedig ar fewnwelediadau a gafwyd o'ch cyfarfodydd gyda'ch tiwtoriaid, yn ogystal â sut ydych yn ymgysylltu â'r rhaglen gyfan. Gofynnwch i'r Deon am fwy o wybodaeth ynghylch hyn ac am unrhyw adborth yr hoffech ei gynnwys am eich ffurfiant.

Adroddiadau i'r Esgob

Yn ogystal a'r cyfarfodydd yma, rydym yn adrodd ar eich cynnydd mewn adroddiad ffurfiol, fel arfer yn ystod eich blwyddyn olaf. Bydd yr adroddiad hwn yn seiliedig ar eich cofnod ffurfiant a'r sgysiau a gawsoch gyda'ch tiwtor ac er mwyn ysgrifennu eich adroddiad byddwn yn defnyddio'r rhain fel tystiolaeth, ynghyd ag adroddiadau gan eich arweinydd cell ffurfiannol a'ch goruchwyliwr lleoliad. Mae'r broses hon fel arfer yn digwydd ym mis Rhagfyr yn ystod eich blwyddyn olaf.

Ym mis Tachwedd yn ystod eich blwyddyn olaf byddwn yn gofyn i chi ysgrifennu hunanasesiad a byddwn yn dechrau casglu'r adroddiadau eraill yn ogystal â choladu'r adroddiadau a'r adborth pregethu sydd gennym eisoes. I'r rhai sydd ar raglen blwyddyn, bydd hyn yn digwydd yn ystod mis Mawrth.

Bydd eich tiwtor yn ysgrifennu drafft o'r adroddiad ar ddiwedd mis Tachwedd neu ddechrau mis Rhagfyr ac yn ei anfon at y Deon am ei sylwadau ac at y Prifathro i'w gymeradwyo. Yna byddwn yn ei rannu â chi a bydd cyfle i ychwanegu sylwadau neu, ar achlysuron prin iawn, cytuno ar unrhyw newidiadau.

Pan mae diffyg cynnydd: Adroddiadau arbennig

Yn achlysurol, efallai y bydd Esgobion yn gofyn am adroddiad arbennig. Efallai byddwn ninnau hefyd yn awgrymu ysgrifennu adroddiad. Efallai bod ffurfiant wedi dilyn llwybr gwahanol neu'n symud mewn ffordd wahanol i'r hyn a ddisgwyliwyd. Gallai fod pryderon ynghylch ffurfiant ymgeisydd neu gwestiynau ynghylch lle i'w leoli / i'w lleoli yn y dyfodol. Weithiau bydd yr Esgob yn ceisio cyngor ynghylch a ddylid parhau i noddi ymgeisydd ai peidio. Byddwn bob amser yn rhannu'r adroddiad â chi a bydd cyfle bob amser i drafod newidiadau ac ychwanegu sylwadau.

Os yw'n debygol y bydd adroddiad arbennig yn codi cwestiynau i'r Esgob ynglŷn â pharhau i noddi ymgeisydd, y broses arferol fydd:

1. Codi pryder ynghylch ffurfiant ymgeisydd naill ai gan diwtor, goruchwyliwr lleoliad, hwylusydd neu dywysydd ffurfiannol.
2. Os bydd hyn yn parhau i fod yn destun pryder ar ôl ceisio rhoi adborth i'r ymgeisydd, bydd y tiwtor yn cael cyfarfod un i un gyda'r ymgeisydd.
3. Os bydd y mater yn parhau i fod yn destun pryder ar ôl rhoi adborth, bydd y tiwtor a'r Deon neu'r Cyfarwyddwr Ffurfiant ar gyfer y Weinidogaeth Drwyddedig yn cyfarfod â'r ymgeisydd. Gall yr ymgeisydd ddod â ffrind neu gefnogwr gydag ef.
4. Bydd y tiwtor a'r Deon yn penderfynu a ddylid rhannu'r pryderon ag esgob yr ymgeisydd ar ffurf adroddiad arbennig ai peidio, drwy ymgynghori â'r Pennaeth.
5. Os penderfynir ysgrifennu adroddiad arbennig, fe rhannir yr adroddiad yma gyda'r ymgeisydd ar gyfer eu sylwadau.
6. Anfonir yr adroddiad at yr esgob a all argymhell camau gweithredu amrywiol neu hyd yn oed argymhell tynnu nawdd yn ôl.

Mae disgwyliadau'r hyn y byddwch wedi mynd i'r afael ag ef erbyn diwedd eich hyfforddiant yn seiliedig ar flaenoriaethau'r esgobion, sef:

Disgwyliadau Ffurfiannol ar gyfer y Weinidogaeth Drwyddedig Egwyddorion a Nodweddion

A.Hyder, Sicrwydd a Ffydd Aeddfed

Adeg eu trwyddedu neu eu hordeinio, bydd ymgeiswyr yn gallu siarad yn onest am eu perthynas bresennol â Duw, am le gweddi yn eu bywydau, am astudio'r Beibl ac am eu dibyniaeth ar rym yr Ysbryd. Byddant yn gallu myfyrio gyda hyder priodol ynghylch eu perthynas â Christ ac ynghylch yr hyn y gallant ei gyfrannu tuag at gymdeithas a'r Eglwys yn ogystal ag ynghylch eu lle hwy o fewn y ddau gyd-destun. Byddant eisoes wedi amlygu lefel dda o ddeallusrwydd emosiynol drwy gydol eu rhyngweithio wrth hyfforddi. Byddant yn gallu cyfleu'r modd mae'r hyder hwnnw ynghylch eu hunaniaeth yng Nghrist yn eu galluogi i weinidogaethu mewn ffordd greadigol a llawn dychymyg, gan fentro heb ofni methu. Byddant yn gallu cyfleu'r ffordd mae eu ffydd, wedi'i hysbrydoli gan astudio diwinyddiaeth a'r Beibl, ynghyd â gweddi, wedi eu cynnal drwy gyfnodau anodd yn ogystal ag adegau llawen yn eu bywydau.

B. Gweithio mewn Tîm

Adeg eu trwyddedu neu eu hordeinio dylai ymgeiswyr amlygu brwdfrydedd dros weithio mewn tîm a gallu iach a gonest i fyfyrion ar brofiadau anodd yn ogystal â rhai cadarnhaol o weithio gydag eraill. Byddant yn gwybod yn iawn am y sgiliau a'r galluoedd y gallant eu cynnig i dimau, yn ogystal ag ynghylch eu diffygion a'u gwendidau wrth weithio gydag eraill. Agwedd bwysig ar eu hyfforddiant fu mynd i'r afael â rhai o'r diffygion a'r gwendidau hynny, a byddant yn gallu siarad yn agored ynghylch ble maent ar y daith honno. Byddant wedi dysgu sut i ymdrin yn effeithiol â chydberthynasau anodd a'u datrys. Byddant wedi myfyrion ynghylch eu rhan hwy eu hunain mewn gwrthdaro yn y gorffennol a'r hyn maent wedi'i ddysgu amdanynt eu hunain a'r ffordd y gallent fod wedi ymdrin â sefyllfaoedd anodd yn well. Byddant wedi amlygu ymrwymiad i feithrin perthynas iach ag eraill.

C. Bod yn Greadigol, yn Hyblyg ac yn Abl i Ymaddasu

Adeg eu trwyddedu neu eu hordeinio, bydd ymgeiswyr wedi dangos bod ganddynt y sgiliau yn ogystal â'r anian i allu gweinidogaethu mewn cymdeithas sy'n newid yn barhaus, gan fod yn greadigol ac yn hyblyg. Byddant yn bobl sy'n parhau i ddysgu gydol eu hoes a byddant wedi dangos brwdfrydedd dros ddysgu. Byddant wedi amlygu hyder a pharodrwydd i roi cynnig ar bethau newydd. Byddant wedi dangos brwdfrydedd i rannu eu ffydd mewn ffyrdd sy'n pontio â'r rhai sy'n byw yn eu cymunedau. Byddant wedi amlygu gwytnwch ac ysbryd gobeithiol ar daith hyfforddiant a dirnadaeth, drwy eu hymwneud a'u rhyngweithio ag eraill. Byddant wedi dangos y gallu i weithio y tu hwnt i feysydd sy'n gynefin iddynt ac i roi cynnig ar fentrau newydd. I'r rhai sy'n hyfforddi ar gyfer gweinidogaeth arloesi bydd ganddynt brofiad o ddechrau a chynnal mentrau neu brosiectau.

CH. Wedi'u gwreiddio mewn Eglwysoleg ac Ysbrydolrwydd Anglicanaidd

Adeg eu trwyddedu neu eu hordeinio, bydd ymgeiswyr wedi ennill cymhwyster priodol mewn diwinyddiaeth ac yn gallu trafod mewn modd ystyrlon a diddorol y modd y bu i astudio diwinyddiaeth eu cynorthwyo i dyfu yn eu ffydd. Byddant yn gallu siarad yn wybodus am y Beibl ac am yr hanes, yr eglwysoleg a'r traddodiadau sy'n sail i fywyd yr Eglwys yng Nghymru. Byddant yn gallu dangos eu bod yn gallu tynnu o ffynhonnau dwfn gweddi ac ysbrydolrwydd Anglicanaidd i lywio a chynnal eu bywyd fel gweinidogion. Byddant wedi dangos eu bod yn ddisgybledig yn eu gweddio dyddiol, wrth astudio, addoli ac wrth encilio. Byddant yn amlygu dealltwriaeth o draddodiadau gwahanol i'r rhai maent fwyaf cyfforddus â hwy ac yn ymagweddu'n sensitif tuag atynt. Bydd ganddynt agwedd gadarnhaol tuag at y Gymraeg ac, yn achos ymgeiswyr llawn amser, byddant wedi cymryd camau i sicrhau y gallan gynnal gwasanaethau yn rhannol yn y Gymraeg a defnyddio rhywfaint o Gymraeg mewn sefyllfaoedd bugeiliol. Byddant yn hyderus wrth arwain addoliad mewn gwahanol ddulliau gwahanol ac wrth gyfleu neges y ffydd. Os ydynt yn

hyfforddi ar gyfer gweinidogaeth bregethu, byddant wedi datblygu'r gallu i bregethu mewn modd eglur a diddorol.

D. Yn Frwd dros Genhadu ac wedi Ymrwymo i Dwf

Pan fyddant yn barod i'w hordeinio neu eu trwyddedu, bydd ymgeiswyr wedi dangos eu bod yn eangfrydig, yn genhadol eu hysbryd ac yn frwdfrydig dros rannu'r ffydd â'r werin bobl ledled ein gwlad mewn amrywiaeth o ddulliau. Yn eu ffyrdd eu hunain, byddant wedi amlygu ymroddiad ac egni i gofleidio ffydd sy'n fwy â o fudiad na sefydliad. Byddant yn gallu egluro'r ffydd mewn ffordd ddeniadol a bod yn llysgenhadon da i Grist. Byddant wedi amlygu ymrwymiad i weld twf yn yr Eglwys yng Nghymru a byddant yn dod yn gynyddol ymwybodol o'r ffactorau sy'n hybu neu'n llesteirio hynny, yn seiliedig ar eu hastudiaethau a'u profiad personol.

DD. Arweinwyr Strategol a Thywyswyr

Adeg eu trwyddedu neu eu hordeinio dylai ymgeiswyr fod wedi amlygu'r gallu i arwain eraill a'r gallu i ennill ymddiriedaeth a theyrngarwch y rhai y maent yn gweithio yn eu mysg. Er bydd y swyddogaethau arweiniol y byddant yn cael eu galw iddynt yn amrywio o ran cwrpas a maes, bydd angen i bob ymgeisydd am weinidogaeth amlygu dewrder, gwytnwch a'r gallu i ysbrydoli eraill. Byddant eisoes wedi ysbrydoli ac arfogi aelodau cynulleidfaoedd yn eu bywyd fel disgyblion a'u gweinidogaeth eu hunain, ac wedi hybu cydweithio mewn timau iach. Byddant yn deall pwysigrwydd gweithredu o fewn strwythurau goruchwyllo.

Cefnogaeth a chymorth bugeiliol

Rydym yn deall y gall ffurfiant fod yn gyfnod anodd oherwydd materion a allai godi, neu efallai y bydd pethau eraill yn eich bywyd y mae'n rhaid i chi ddelio â nhw hefyd. Cofiwch roi gwybod i ni os allwn ni fel tiwtoriaid helpu mewn unrhyw ffordd.

Rydym hefyd yn ymwybodol efallai y bydd pethau rydych chi am eu trafod sy'n gwbl gyfrinachol ac ar wahân i'r broses ffurfiant. Byddem yn eich annog i gael cyfarwyddwr ysbrydol (mentor hyfforddedig a fydd yn cyfarfod â chi i drafod eich bywyd gweddi).

Gallwn hefyd drefnu therapi neu wasanaeth cwnsela. Yn yr amgylchiadau hyn byddwn fel arfer yn cyfeirio ymgeiswyr at seicotherapydd arbenigol (sydd hefyd yn offeiriad) i gael eu hasesu er mwyn i ni drefnu'r cymorth gorau posibl. I gael rhagor o wybodaeth am hyn, siaradwch â'ch tiwtor neu'r Cyfarwyddwr Ffuriant. Rydym yn trin unrhyw asesiadau yn gwbl sensitif a chânt oll eu cadw mewn ffeil gyfrinachol sydd ond ar gael i nifer cyfyngedig o staff Athrofa Padarn Sant. Dim ond ar sail yr angen i wybod y caiff gwybodaeth gyfrinachol o'r fath ei rhannu. Fel arfer rydym yn medru gael cymorth therapyddol o Ganolfan Cwnsela a lachau Sant Marleybone yn Llundain, sy'n gallu cynnig therapi ar-lein. Rydym ni hefyd yn medru cael mynediad i

gymorth fwy lleol neu arbenigol. Felly, siaradwch â'ch tiwtor, Cyfarwyddwr Ffuriant neu'r Deon.

Mae gennym hefyd *Gronfa Caledi'r Prifathro* sy'n gallu helpu ymgeiswyr, fel arfer y rhai sy'n hyfforddi llawn amser a heb ffynhonnell incwm arall. Mae hyn fel arfer ar gael ar gyfer cost nad oedd modd ei rhagweld e.e. bil mawr annisgwyl ar gyfer car, problemau cyfrifiadurol ac ati. Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan eich tiwtor a fydd yn gwneud cais ar eich rhan. Mae'r gronfa ar gael ar gyfer y rhai sydd mewn gwir angen, ac mae'n bosibl gwneud cais i'r gronfa fwy nag unwaith yn ystod eich hyfforddiant.

Manylion Cyswllt ar gyfer Cyfarwyddwyr Ysbrydol

Mynwy	Revd. Jane Butler	jane.upperislwyn@yahoo.com
TyDdewi	Revd. Andrew Johnson	frandrewj@btinternet.com
Bangor	Revd. Janet Fletcher	revjfletcher@btinternet.com
Llandaf	Revd. Edward Dowland-Owen	vicar@parishofmargam.org.uk
Abertawe & Aberhonddu	Sam Aldred	s.v.aldred@googlemail.com
LLanelwy	Revd Dr Alexis Smith	alexissmith@churchinwales.org.uk

Rydym yn argymhell i bob ymgeisydd i gael cyfarwyddwr ysbrydol. Am fwy o gyngor ar hyn cysylltwch a'r cyswllt esgobaethol ar gyfer y weinidogaeth benodol hwnnw.

Dysgu Cymraeg

Disgwylir i bob ymgeisydd llawn amser nad yw'n rhugl yn y Gymraeg ddysgu neu loywi eu Cymraeg a bydd dosbarthiadau rheolaidd fel rhan o'r rhaglen o ddydd Mercher i ddydd Gwener. Y tiwtor sy'n goruchwyllo hyn yw Siôn Aled Owen. Erbyn diwedd eu hyfforddiant disgwylir i bob ymgeisydd llawn-amser i ddefnyddio rhywfaint o Gymraeg yn ystod addoliad a gael y gallu i gynnal rhywfaint o sgwrs yn Gymraeg ar gyfer sgysiau bugeiliol

Gallwn hefyd gynnig lleoliadau arferol neu dymor byr i helpu gyda dysgu Cymraeg ac mae swm bychan o arian ar gael i rai ymgeiswyr ar gyfer cyrsiau dwys yn ystod y gwyliau. Siaradwch â Chris Thomson am leoliadau a Siôn Aled Owen am ddysgu Cymraeg. I ymgeiswyr rhan-amser gallwn eich gofrestru ar gwrs ar-lein **Say Something in Welsh** er mwyn gwella eich sgiliau iethyddol. Disgwylir i bob ymgeisydd allu gwneud defnydd o'r Gymraeg mewn addoliad erbyn diwedd eu hyfforddiant. Gallwn hefyd gynnig lleoliadau byr-dymor rheolaidd i'ch hepu gyda dysgu Cymraeg. Mae hefyd cronfa bychain o gyllid ar gael i rhai ymgeiswyr fynd ar cyrsiau dwys yn ystod gwyliau. Siaradwch â Chris Thomson ynghylch lleoliadau about placements a Siôn Aled Owen am ddysgu Cymraeg.

Y Rhaglen Dydd Mercher – Dydd Gwener (Ymgeiswyr Llawn Amser)

Mae'r rhai sy'n hyfforddi'n llawn amser yn Athrofa Padarn Sant yn cwrdd 30 wythnos y flwyddyn yn yr athrofa yng Nghaerdydd ar gyfer ein rhaglen dydd Llun-dydd Gwener. Mae'r rhaglen yn dechrau bob dydd Mercher gyda Chymundeb agoriadol (am 11:45am ar hyn o bryd) a daw i ben gyda chinio ar ddydd Gwener. Yn ogystal ag astudiaeth ddiwinyddol a chelloedd ffurfiannol mae'r rhaglen llawn amser yn canolbwyntio ar addoli, y gymuned a chyfleoedd dysgu ychwanegol.

Gwahoddir ffrindiau a theulu yn gynnes i ymuno ar gyfer addoliad a swper ar ddydd Mercher. Os oes lle ar gael, mae croeso i deulu sy'n teithio o bell aros ar y safle nos Fercher ac ymuno am frechwast y bore canlynol. Cysylltwch â'r Cyfarwyddwr Ffurfiant o leiaf wythnos ymlaen llaw os oes angen llety ar eich gwestai ar y safle.

Addoli

Mae'r rhan fwyaf o'r addoli yn y rhaglen llawn amser yn cael ei arwain gan yr ymgeiswyr. Caiff y gymuned ei rhannu'n nifer o grŵpiau addoli, gyda phob grŵp yn gyfrifol am yr addoli mewn wythnos benodol. Cyn yr wythnos addoli, bydd y grŵp yn cwrdd ag aelod o staff i ystyried addoli yn gyffredinol ac i gynllunio'r addoli ar gyfer yr wythnos ganlynol. Yna bydd y grŵp yn cwrdd ag aelod o staff ar ôl ei wythnos addoli i fyfyrto ar yr wythnos a fu ac i feddwl am sut i ddatblygu pethau yn y dyfodol.

Mae llawlyfr neilltuol ar gyfer addoliad – darllenwch yn ofalus.

Cymuned

Mae cymuned wrth wraidd popeth a wnawn yn Athrofa Padarn Sant, ac mae hyn yn sicr yn cael ei adlewyrchu yn y rhaglen llawn amser. Mae'r gymuned llawn amser yn cyd-fwyta, yn cydaddoli, yn cyd-ddysgu ac yn cyd-gymdeithasu. Yn ogystal ag agweddau ffurfiol ar y rhaglen dydd Mercher-dydd Gwener, mae lle yn y rhaglen i gynnwys cyfarfodydd mwy anffurfiol - grŵpiau gweddio, grŵpiau darllen, digwyddiadau cymdeithasol ac ati. Gan fod yr elfen o gymuned yn rhan bwysig o'r hyfforddiant mae disgwyl i ymgeiswyr fynychu bob gweithagredd.

Cyfleoedd Dysgu Ychwanegol

Mae ymgeiswyr llawn amser yn cwrdd bob pythefnos ar gyfer sesiwn 'Arwain Eglwysi Iach' ble mae siaradwr gwadd/ymarferydd yn ymuno i rannu profiadau gyda'r ymgeiswyr a'u hannog i feddwl am amrywiol agweddau ar y weinidogaeth. Bob tymor, mae darlithydd gwadd yn ymuno â ni am bryd arbennig gyda'r nos, darlith, a thrafodaeth sy'n gysylltiedig â'i waith/gwaith ymchwil. Ymysg y cyfleoedd dysgu ychwanegol eraill mae gwersi lleisiol/canu a grŵpiau darllen a gweithdai.

Polisiau a ble i ddod o hyd iddyn nhw

Gellir gweld polisiau perthnasol yr Eglwys yng Nghymru ac Athrofa Padarn Sant yn adran yr ymgeiswyr ar Moodle ac ar wefan Athrofa Padarn sant (ac mae rhai i'w gweld o dan ddogfennau clerigwyr ar wefan yr Eglwys yng Nghymru). Rhaid i ymgeiswyr gadw at bolisiau'r Eglwys yng Nghymru ac Athrofa Phadarn Sant.

Presenoldeb

Mae presenoldeb yn hanfodol drwy gydol eich hyfforddiant. Mae'r Eglwys yng Nghymru wedi buddsoddi adnoddau sylweddol i hyfforddi gweinidogion drwy Athrofa Padarn Sant. Yn ariannol, mae hyn yn cynrychioli rhodd aberthol aelodau ffyddlon o gynulleidfaedd ledled Cymru er mwyn gwasanaethu cenhadaeth yr Eglwys yng Nghymru. Mae presenoldeb felly, yn y lle cyntaf, yn ymwneud ag atebolrwydd i'r Eglwys ehangach yng Nghymru a stiwardiaeth dda ar adnoddau.

Cynlluniwyd gwahanol elfennau'r hyfforddiant yn ofalus i sicrhau bod pob ymgeisydd yn cael proses ffurfiant gweinidogol drwyadl gan ddefnyddio pedwar maes - dysgu diwinyddol, lleoliadau, cyfnodau preswyl a chelloedd ffurfiannol.

Mae pob agwedd ar hyfforddiant yn hanfodol a bydd colli unrhyw elfen yn arwain o bosibl at brofiad llai o ran hyfforddiant ac at fylchau a fydd yn dod i'r amlwg a fydd yn anodd mynd i'r afael â hwy yn nes ymlaen. **Felly, rydym yn disgwyl i chi wneud pob agwedd ar ffurfiant yn flaenoriaeth yn ystod eich cyfnod hyfforddi, ystyried yn ofalus eich gallu i wneud y math hwn o ymrwymiad cyn hyfforddi, a sicrhau hefyd nad yw ymrwymadau eglwysig eraill yn ymyrryd â'r cyfle pwysig hwn i ymgolli mewn ffurfiant diwinyddol, ymarferol ac ysbrydol.**

Mae'r polisi absenoldeb yma ar ein safle gwe:

<https://stpadarns.contentfiles.net/media/documents/01.a.ii. St Padarns Formation for Licensed Ministry Absence Policy Cy 003.pdf>

Gwnewch yn sicr eich bod yn ymgyfarwyddo â'r polisi. Byddwch yn sylwi fod y polisi yn debyg i bolisiau eraill yn y gweithle, yn y modd y bydd angen nodyn gallu i weithio yn dilyn 7 diwrnod o salwch, ynghyd a chael y cyfle i gael cyfweiliad dychwelyd yn ôl i'r 'gwaith'

Os ydych yn absennol o unrhyw agwedd o'r cwrs oherwydd rheswm na ellir ei hosgoi cysylltwch â'r isod yn ysgrifenedig. (Mewn argyfwng cysylltwch drwy ffôn ac yn dilyn hynny yn ysgrifenedig)

Ar gyfer lleoliadau, cysylltwch a'ch goruchwylydd a'ch tiwtor, gan gopio y Tiwtor mewn Addysg Cyd-destunol.

Ar gyfer cyfnodau preswyl cysylltwch â'r Deon Hyfforddiant Cychwynnol I Weinidogion drwy e-bost a chopio i Gydlynnydd Ffuriant y Weinidogaeth Drwyddedig a'ch tiwtor.

Os nad yw ymgeisydd llawn amser yn yn medru mynychu'r rhaglen llawn amser am unrhyw rheswm my ddylen nhw rhoi gwybod i gydlynnydd y rhaglen, gan gopio'r neges at Gyfarwyddwr Ffuriant a'ch tiwtor. Fodd bynnag, os ydy'r absenoldeb am rhyw rheswm heblaw am salwch a'ch bod yn gofyn am ganiatâd absenoldeb, gwnewch **gais yn ysgrifenedig** a'i gyfeirio at y Deon.

Beth yw goblygiadau colli unrhyw agwedd ar y cwrs?

Byddwn yn cadw cofnod o absenoldebau. Mae hyn er mwyn gallu cyflawni ein hymrwymiad ein hunain i'r eglwys i ddarparu hyfforddiant trylwyr ac ysbrydoledig i weinidogion y dyfodol, ac i nodi patrymau a lle mae ymgeisydd wedi colli agwedd hanfodol ar y broses ffuriant. Bydd patrwm rheolaidd o absenoldebau, yn enwedig rhai sydd heb eu hawdurdodi, yn cael eu nodi yn yr adroddiad i'r esgob ac yn y cyfarfod bob chwe mis gyda phob esgob.

Beth yw absenoldebau wedi'u hawdurdodi a heb eu hawdurdodi?

Mae yna resymau dros absenoldeb sy'n dderbyniol i'r gweithle a sefydliadau academiaidd, megis salwch a materion bugeiliol hirdymor. Byddem yn dilyn yr un confensiynau o ran absenoldebau o bob agwedd ar y broses ffuriant. Bydd cyrraedd cwrs preswyl yn hwyr iawn neu adael yn gynnar iawn hefyd yn gyfystyr ag absenoldeb, yn ogystal â pheidio â mynychu sesiynau unigol.

Er ein bod yn deall y bod digwyddiadau pwysig tu hwnt i'n rheolaeth yn codi megis digwyddiadau teuluol (Priodas Aur, penblwyddi arbennig ayyb.) a gwyliau wedi eu bwcio blynyddoedd o flaen llaw, rydym dal i ddisgwyl fod hyfforddiant yn flaenoriaeth i ymgeiswyr, a'u bod yn gwneud ymdrech arbennig i fod yn bresennol ym mhob cyfnod preswyl a digwyddiadau eraill. Dyma'r rheswm bod dyddiadau yn cael eu rhannu o flaen llaw, ac yn cael eu dosbarthu i swyddogion gweinidogaeth ym mhob esgobaeth cyn gynted ag y maen nhw'n derfynol ac ar gael ar ein gwefan. Os oes angen fwy o wybodaeth arnoch ynghylch dyddiadau cysylltwch â Chydlynnydd y Rhaglen.

Proffesiynoldeb, cwrteisi ac ymddiriedaeth

Agwedd bwysig ar arweinyddiaeth yw meithrin ymddiriedaeth yn y rhai yr ydym yn eu harwain, a disgwiliad y gellir ymddiried ynom i gyflawni ymrwymadau ac i ymgysylltu'n llawn â'n gweinidogaethau yn y dyfodol. Felly, mae meithrin arferion da

yn ystod hyfforddiant yn bwysig. Mae hefyd yn bwysig galluogi'r rhai rydych yn gweithio â nhw ac yn eu gweinidogaethu ar hyn o bryd i weld eich bod yn newid rôl ac yn symud i gylch gweinidogaeth wahanol. Weithiau bydd hyn yn golygu rhoi'r gorau i ymrwymadau a oedd gennych cyn i chi ddechrau hyfforddi ac os bydd angen cefnogaeth bellach arnoch yn hyn o beth, rhowch wybod i ni. Ein hymrwymiad i chi yw ein bod am weld pob un ohonoch yn ffynnu yn ystod eich cyfnod ffurfiant a rhan o'r ymrwymiad hwn yw meithrin diwylliant o broffesiynoldeb, cwrteisi a chywirdeb o fewn y cwrs ac wrth i ni ddelio â'n gilydd.

Fel tiwtoriaid rydym wedi ymrwymo i ymateb i unrhyw ymholiad o fewn 3 diwrnod (heblaw yn ystod gwyliau) Cysylltwch â'r Deon neu Gydlynnydd y Rhaglen os ydych yn ei chael hin anodd i gael ymateb. Yn yr un modd rydym i'n disgwyl ymateb amserol i alwadau ffôn neu e-byst gan ymgeiswyr.

Mae proffesiynoldeb, cwrteisi ac ymddiriedaeth hefyd yn rhan o'r adroddiad i'r esgob.

Cyfrinachedd o fewn Ffurfiant ar gyfer y Weinidogaeth Drwyddedig a Diwinyddiaeth ar gyfer Bywyd

Dylid darllen hwn ar y cyd â pholisïau Athrofa Padarn Sant e.e. polisïau preifatrwydd, diogelu data a diogelu.

Ffurfiant ar gyfer y Weinidogaeth Drwyddedig

Yn Athrofa Padarn Sant rydym yn cynnwys cyfrinachedd corfforaethol fel rhan o'r hyfforddiant i weinidogion. Rydym yn parchu urddas yr ymgeisydd ac eisïau gweld pob ymgeisydd yn blodeuo ac yn tyfu i fod yn berson ac yn weinidog y mae Duw yn galw arnynt i fod.

Mae rôl y tîm tiwtoriaid mewn perthynas ag ymgeiswyr yn gymhleth. Mae gan diwtoriaid gyfrifoldeb bugeiliol yn ogystal â chyfrifoldeb i'r Eglwys yng Nghymru i helpu ymgeiswyr ar eu taith ffurfiannol, perthynas sy'n golygu her yn ogystal â gofal bugeiliol. Byddem yn annog yr ymgeiswyr i fod yn agored ac yn onest gyda'r tiwtoriaid, yn arbennig eu tiwtor Ffurfiant. Swyddogaeth y tiwtor hwnnw yw mynd gyda'r ymgeisydd ar ei daith, hwyluso myfyrio ar ffurfiant a helpu'r ymgeisydd i fynd i'r afael â phob un o'r meini prawf yn eu tro. Lle mae gwaith i'w wneud ar feini prawf penodol, gall tiwtor herio ac annog ymgeisydd o ran ffyrdd i ddysgu, datblygu a newid. Caiff y tiwtor ei gefnogi i wneud hyn gan uwch staff yn Athrofa Padarn Sant. Ar yr un pryd, mae Athrofa Padarn Sant yn gyfrifol am adrodd i'r esgobion ar deithiau ffurfiannol yr ymgeiswyr a rhannu'n agored gyda nhw beth yw cryfderau yn ogystal â gwendidau'r ymgeiswyr ac unrhyw bryderon am eu haddasrwydd ar gyfer

gweinidogaeth drwyddedig, neu gymorth penodol y gall fod ei angen ar yr ymgeisydd yn y dyfodol.

Felly, mae'r berthynas hon rhwng ymgeisydd a thiwtor (a staff eraill Athrofa Padarn Sant) yn berthynas broffesiynol. Os bydd ymgeisydd yn dymuno siarad yn gwbl gyfrinachol am fater penodol, awgrymwn eu bod yn siarad â'u cyfarwyddwr ysbrydol neu gaplan dynodedig.

O fewn y tîm tiwtoriaid, os caiff rhywbeth ei rannu gyda thiwtor ffurfiant neu diwtor arall, gall y wybodaeth hon ffurfio rhan o'r daith ffurfiannol yr adroddir arni. Yn yr un modd, efallai y bydd angen i diwtor rannu gwybodaeth gyda'r rhai sydd â chyfrifoldeb goruchwyllo e.e. Cyfarwyddwr Ffuriant, Deon neu Brifathro, aelodau o'r Uwch Dîm arwain Athrofa Padarn Sant ac mewn rhai amgylchiadau gydag esgob yr Esgobaeth.

Fodd bynnag, caiff unrhyw wybodaeth bersonol a fynegir mewn cyd-destun bugeiliol ei rhannu â staff eraill dim ond i'r graddau y mae hynny'n angenrheidiol er mwyn i Athrofa Padarn Sant wneud ei waith; ni fydd byth yn cael ei thrafod yn gyffredinol gyda'r tîm cyfan. Ni chaiff gwybodaeth bersonol sensitif byth ei rhannu ag ymgeiswyr eraill, oni bai bod yr ymgeisydd wedi rhoi caniatâd pendant y gellir rhannu'r wybodaeth (er enghraifft, pan fydd ymgeisydd am i diwtor roi gwybod i aelodau o'i grŵp dysgu am anhawster personol er mwyn eu hatal rhag gorfod cael yr un sgwrs dro ar ôl tro mewn ymateb i gwestiynau'n deillio o bryder gan eu cydweithwyr).

Mae'r cyfrifoldeb corfforaethol hefyd yn ymestyn i bartneriaid eraill Athrofa Padarn Sant sy'n gweithio gyda'r Sefydliad ar ffurfiant ymgeiswyr e.e. hwyluswyr, arweinwyr celloedd ffurfiannol a goruchwylwyr lleoliadau. Eto, perthnasoedd proffesiynol yw'r rhain, sy'n amodol ar gytundeb (cyfamod) a chanllawiau, ac mae gan y rhai dan sylw gyfrifoldebau i gefnogi eich taith ffurfiannol ac adrodd arni. I gael rhagor o wybodaeth am gyfrinachedd o fewn celloedd ffurfiannol, gweler yr adran celloedd ffurfiannol o'r llawlyfr hwn.

Mae cyfrinachedd corfforaethol hefyd yn ymestyn, yn yr un modd ar sail yr angen i wybod, i'r tîm Gweithrediadau. Gellir rhannu gwybodaeth sensitif wrth geisio cael cyngor a gwneud cais am gymorth mewn amgylchiadau esgusodol. Yn yr un modd, bydd y wybodaeth hon yn cael ei thrin yn sensitif a gyda pharch ar sail yr angen i wybodaeth o fewn y tîm tiwtoriaid a gweithrediadau.

Gwyliau

Fel *lleiafswm*, rydym yn disgwyl y bydd gennych o leiaf yr un lwfans gwyliau â chlerigwyr yn yr Eglwys yng Nghymru, p'un a ydych yn hyfforddi ar gyfer gweinidogaeth lawn amser neu ran amser. Mae'r llawlyfr ar gyfer clerigwyr yn nodi:

The annual holiday entitlement is four weeks to include four Sundays per annum plus those Bank Holidays which do not fall on Christmas Day and Good Friday. In addition, a Cleric is also entitled to two periods of six days holidays to be taken after Christmas and Easter.

Mae angen dehongli'r lwfans hwn mewn modd hyblyg i'r rhai sy'n cael hyfforddiant - defnyddir sawl dydd Sul ar gyfer hyfforddiant ac felly yn ymarferol chwe wythnos yw'r hawl gwyliau. (Gan gynnwys cyfnodau i ffwrdd ar ôl y Nadolig a'r Pasg, hawl gwyliau clerigwyr yw chwe wythnos namyn dau ddydd Sul.)

Mae'n arfer da trafod eich gwyliau ymhell ymlaen llaw gyda'ch goruchwyliwr lleoliad, o ran cwrteisi, p'un a ydych yn hyfforddi ar gyfer gweinidogaeth lawn amser neu ran amser. Disgwylwch i chi fod ar wyliau pan fyddwch ar wyliau a neilltuo'ch amser ar gyfer hamdden a gorffwys ac nid i ddal i fyny â darllen neu ysgrifennu aseiniadau neu fynychu digwyddiadau eglwysig!

Rydym yn deall ei bod hi'n anodd i'r rheiny sy'n hyfforddi'n rhan-amser ac sydd â gwaith llawn amser yn ogystal â chyfrifoldebau teuluol a chyfrifoldebau gofalu eraill, a gall fod yn demtasiwn ceisio astudio a gwneud gwaith lleoliad yn ystod gwyliau o'ch prif swydd. Fodd bynnag, byddem yn eich annog i roi strategaethau da ar waith i sicrhau cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith yn ystod eich hyfforddiant a chofiwch siarad â'ch tiwtor a/neu oruchwyliwr lleoliad yn glŷn â sut i sicrhau eich bod yn cael digon o amser i ffwrdd bob wythnos yn ogystal â gwyliau o'ch gwaith â thâl a'ch cyfrifoldebau a'ch hyfforddiant eglwysig. Mewn achosion o angen gwirioneddol efallai y byddwn yn gallu bod yn hyblyg.

Mae gan y rhai sy'n hyfforddi'n llawn amser flociau dysgu dwys lle mae disgwyl i chi fod ar y safle yn ystod yr amseroedd hynny. Y tu allan i'r blociau dysgu (a fyddai'n cael eu galw'n wyliau'n draddodiadol) rydym yn dal i ddisgwyl i chi fod ar leoliad ddau ddiwrnod yr wythnos, ond mae'r diwrnodau eraill yn gyfle i astudio, darllen, archwilio a myfyrio mewn modd nad yw bob amser yn bosibl yn ystod y blociau dysgu prysur. Fel yn achos y cyngor uchod, mae hefyd yn bwysig eich bod yn defnyddio eich hawl gwyliau yn llawn ac yn cael saib o astudio a'ch lleoliad.

Siaradwch â'ch tiwtor neu'r Deon os hoffech arweiniad pellach yn glŷn â hyn.

Os ydych yn ymgeisydd llawn amser ac yn mynychu penwythnos preswyl, cofiwch i gymryd diwrnod i ffwrdd yn lle diwrnod lleoliad neu ddiwrnod astudio'r wythnos ganlynol. Os ydych

yn ymgeisydd rhan-amser cofiwch i gael amser i ffwrdd yn ystod yr wythnos ganlynol. Er mwyn gwneud hyn mae'n bosib bydd rhaid i chi drefnu fwy o amser i ffwrdd yn eich lleoliad. Os oes angen cymorth i wneud hyn cysylltwch â'ch tiwtor.

Gwybodaeth ymarferol

Grantiau

Mae'r Eglwys yng Nghymru yn darparu grantiau i bobl sy'n hyfforddi ar gyfer y weinidogaeth. I gael rhagor o wybodaeth edrychwch ar ein gwefan neu siaradwch â'n Cyfarwyddwr Gweithrediadau (manylion cyswllt isod) Mae cost astudio academaidd hefyd yn cael ei thalu wrth hyfforddi yn ogystal â swm bach i dalu am lyfrau a chostau cysylltiedig. Ar gyfer ymgeiswyr llawn amser, mae'r grant yn cael ei gyfrifo'n unigol yn dibynnu ar dai, incwm cartref a chostau byw eraill. Ar ôl i Athrofa Padarn Sant dderbyn ffurflen noddi'r ymgeisydd o'r esgobaeth, trosglwyddir y wybodaeth i adran Gyllid yr Eglwys yng Nghymru. Bydd yr adran yn anfon rhagor o wybodaeth am hawliau grant a ffurflenni i'w cwblhau er mwyn gwneud cais am grantiau.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Siân Trotman, ein Rheolwr Gwasanaethau Dysgu:

Prif llinell: 029 2056 3379

Rhif uniongyrchol : 029 20 838070

E-bost: sian.trotman@stpadarns.ac.uk

Treuliau

I'r ymgeiswyr ar gyfer gweinidogaeth gyflogedig sy'n teithio i Gaerdydd, ddydd Mercher i ddydd Gwener, bydd eich costau teithio ar gyfer y teithiau hynny yn cael eu cyfrifo a'u cynnwys yn eich taliadau grant misol. Dylid cwblhau costau lleoliad gan ddefnyddio'r ffurflen ar Moodle a'i chyflwyno i candidate.expenses@stpadarns.ac.uk Gall pob ymgeisydd hawlio costau teithio i gyrsiau preswyl ac i leoliadau y tu allan i ardal eu gweinidogaeth (mewn achosion lle mae ardal y weinidogaeth yn arbennig o eang gellir cymryd hynny i ystyriaeth - cysylltwch â'ch tiwtor os ydych yn credu bod hyn yn berthnasol i chi). I gael ad-daliad teithio bydd angen i ymgeisydd ddarparu naill ai derbynneb yn achos trafndiaeth gyhoeddus, neu filltiroedd. Telir lwfans milltiroedd ar gyfradd o 45c y filltir am y 10000 milltir gyntaf, a 25c y filltir wedi hynny.

Fel arfer, ni ddylai fod achos i ymgeiswyr hawlio treuliau heblaw treuliau teithio, o gofio bod y grantiau wedi'u cynllunio i dalu costau cysylltiedig eraill. Ar achlysur prin pan fydd ymgeisydd yn mynd i gostau eraill, mae'n rhaid i'r rhain gael eu hawdurdodi ymlaen llaw gan y Deon ar gyfer Hyfforddiant Cychwynnol i Weinidogion neu'r Cyfarwyddwr Ffuriant ar gyfer y Weinidogaeth Drwyddedig.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â threuliau, cysylltwch â Lyn Davies. Mae'r ffurflen ar gael ar Moodle

Dyddiadau Pwysig

Bloc Dysgu 1

Dyddiad	Beth	Pwy
19-25 Awst 2023	Cyfnod Ymsefydlu ac Ysgol Haf	pob dysgwr rhan-amser ac ymgeisydd rhan-amser
9 Medi 2023	Sesiwn Rhagarweiniol BTh Cyflwynir Ar-lein	pob dysgwr rhan-amser a phob ymgeisydd rhan-amser
11 Medi-15 Rhagfyr 2022	8 sesiwn wythnosol wedi eu hwyluso	pob dysgwr ac ymgeisydd rhan-amser
14 Medi-23 Tachwedd 2023	Addysgu Lefel 6 nosweithiau lau ar-lein 7-9 pm	Pob dysgwr rhan-amser a phob ymgeisydd yn astudio Lefel 6
13-15 Medi 2023	Wythnos 1 i ymgeiswyr llawn amser	Ymgeiswyr llawn amser
20-22 Medi 2023	Wythnos 2 i ymgeiswyr llawn amser	Ymgeiswyr llawn amser
27 Medi-29 Medi 2023	Wythnos 3 i ymgeiswyr llawn amser	Ymgeiswyr llawn amser
4-6 Hydref 2023	Wythnos 4 i ymgeiswyr llawn amser	Ymgeiswyr llawn amser
11-13 Hydref 2023	Wythnos 5 i ymgeiswyr llawn amser	Ymgeiswyr llawn amser
13-15 Hydref 2023	Cyfnod Preswyl yr Hydref Parkway Cwmbrân	Pob ymgeisydd llawn amser a rhan-amser
18-20 Hydref 2023	Wythnos 6 i ymgeiswyr llawn amser	Ymgeiswyr llawn amser
25-27 Hydref 2022	Wythnos 7 i ymgeiswyr llawn amser	Ymgeiswyr llawn amser
1-3 Tachwedd 2023	Wythnos Astudiaethau Annibynnol	pob dysgwr rhan-amser ac ymgeisydd llawn amser
8-10 Tachwedd 2023	Wythnos 8 i ymgeiswyr llawn amser	Ymgeiswyr llawn amser
4 Tachwedd 2023	Seminar BTh canol tymor	Pob dysgwr rhan-amser ac ymgeisydd llawn amser
15-17 Tachwedd 2023	Wythnos 9 i ymgeiswyr llawn amser	Ymgeiswyr llawn amser
22-24 Tachwedd 2023	Wythnos 10 i ymgeiswyr llawn amser	Ymgeiswyr llawn amser

Bloc Dysgu 2

30 Tachwedd – 2 Mawrth 2023	Addysgu Lefel 6 Nosweithiau lau ar-lein 7-9 pm	Pob dysgwr rhan-amser a phob ymgeisydd (llawn amser a rhan-amser) sy'n astudio lefel 6
29 Tachwedd-1 Rhag 2023	Wythnos 1 i ymgeiswyr llawn amser	Ymgeiswyr llawn amser
6-8 Rhagfyr 2022	Wythnos 2 i ymgeiswyr llawn amser	Ymgeiswyr llawn amser
13-15 Rhagfyr 2023	Wythnos 3 i ymgeiswyr llawn amser	Ymgeiswyr llawn amser
20 Rhagfyr-9 Ionawr 2023	Gwyliau Nadolig	
10-12 Ionawr 2024	Wythnos 4 i ymgeiswyr llawn amser	Ymgeiswyr llawn amser

13 Ionawr 2024	Sesiwn Rhagarweiniol BTh Cyflwynir ar-lein	pob dysgwr rhan-amser a phob ymgeisydd rhan-amser
15 Ionawr- 22 Mawrth 2024	8 sesiwn wythnosol wedi eu hwyluso i'w gwblhau cyn 22 Mawrth 2024 gydag o leiaf wedi'u cwblhau erbyn 17 Chwefror	pob dysgwr rhan-amser a phob ymgeisydd rhan-amser
17-19 Ionawr 2024	Wythnos 5 i ymgeiswyr llawn amser	Ymgeiswyr llawn amser
24-26 Ionawr 202	Wythnos 6 i ymgeiswyr llawn amser	Ymgeiswyr llawn amser

31 Ionawr-2 Chwefror 2024	Wythnos 7 i ymgeiswyr llawn amser	Ymgeiswyr llawn amser
2-4 Chwefror 2024	Penwythnos Preswyl y Gaeaf (Wrecsam)	Ymgeiswyr llawn amser
7-9 Chwefror 2024	Wythnos 8 i ymgeiswyr llawn amser	Pob ymgeisydd rhan-amser a llawn amser
12-16 Chwefror 2024	Wythnos Astudiaethau Annibynnol	Pob ymgeisydd rhan-amser a llawn amser
17 Chwefror 2024	Seminar canol tymor BTh	Pob dysgwr rhan-amser ac ymgeiswyr rhan-amser
21-23 Chwefror 2024	Wythnos 9 i ymgeiswyr llawn amser	Ymgeiswyr llawn amser
14 Chwefror 2024	Dydd Mercher y Llundw	
28 Chwefror-1 Mawrth 2024	Wythnos 10 i ymgeiswyr llawn amser	Ymgeiswyr llawn amser

Bloc Dysgu 3

6-8 Mawrth 2024	Wythnos 1 i ymgeiswyr llawn amser	Ymgeiswyr llawn amser
7 Mawrth – 16 Mai 2024	Addysgu Lefel 6 Nosweithiau lau ar-lein 7-9 pm	Pob dysgwr rhan-amser a phob ymgeisydd (llawn amser a rhan- amser) sy'n astudio lefel 6
13-15 Mawrth 2024	Wythnos 2 i ymgeiswyr llawn amser	Ymgeiswyr llawn amser
23 Mawrth 2024	Sesiwn Rhagarweiniol BTh yn cael ei gyflwyno ar-lein	Pob ymgeisydd a dysgwyr rhan-amser a llawn amser
18 Mawrth – 14 Mehefin	8 sesiwn wythnosol wedi eu hwyluso i'w gyflawni erbyn 17 Mehefin gydag o leiaf 4 sesiwn wedi cyflawni erbyn 4 Mai	Pob ymgeisydd a dysgwyr rhan- amser
20-22 Mawrth 2024	Wythnos Astudiaethau Annibynnol	Pob ymgeisydd llawn-amser
26-29 Mawrth 2024	Wythnos y Pasg	Pob ymgeisydd
3-5 Ebrill 2024	Gwyliau'r Pasg	Pob ymgeisydd
10-12 Ebrill 2024	Wythnos 3 i ymgeiswyr llawn amser	Ymgeiswyr llawn amser
17 -19 Ebrill 2024	Wythnos 4 i ymgeiswyr llawn amser	Pob ymgeisydd
24-26 Ebrill 2024	Wythnos 5 i ymgeiswyr llawn amser	Ymgeiswyr llawn amser
*4 Mai 2024	Seminar Canol Tymor BTh ar-lein	pob dysgwr rhan-amser a phob ymgeisydd rhan-amser

1-3 Mai 2024	Wythnos 6 i ymgeiswyr llawn amser	Ymgeiswyr llawn amser
8-10 Mai 2023	Wythnos 7 i ymgeiswyr llawn amser	Ymgeiswyr llawn amser
10-12 Mai 2024	Cyfnod Preswyl y Gwanwyn (Abertawe)	Pob ymgeisydd a dysgwr rhan-amser a llawn amser
15-17 Mai 2024	Wythnos 8 i ymgeiswyr llawn amser	Ymgeiswyr llawn amser
22-24 Mai 2024	Wythnos 9 i ymgeiswyr llawn amser ac wythnos ymadawyr	Ymgeiswyr llawn amser

Ffurflenni

Rhan 1 Cytundeb Ffuriant a Hyfforddiant Ymgeiswyr

Rhan 2 Cofnod Ffuriant

Rhan 1

Gwybodaeth gyffredinol	
Enw llawn yr ymgeisydd	
Eich enw bedydd dewisol	
Cyfeiriad ebost	
Esgobaeth sy'n eich noddi a phlwyf, ardal weinidogaeth os yn briodol	
Y weinidogaeth yr ydych yn hyfforddi ar ei chyfer	
Rhif Ffôn	
Dyddiad geni	

Dull hyfforddi				
Rhan-amser	Rhan-amser	Llawn-amser Esgobaethol	Llawn-amser Byw ar y Safle	

Cymwysterau				
Cymhwyster academiaidd/proffesiynol uchaf				
Sefydliad astudio	Dyddiad dechrau	Dyddiad gorffen	Teitl llawn y cymhwyster	Gradd/Canlyniad

Mae'r ddogfen hon yn Gytundeb Ffuriant a Hyfforddiant rhwng yr ymgeisydd ac Athrofa Padarn Sant, ac mae'n cynnwys gwybodaeth bwysig am eich cwrs.

Sylwch eich bod chi, drwy lofnodi'r cytundeb hwn:

1. yn rhoi caniatâd i Athrofa Padarn Sant rannu gwybodaeth am eich hyfforddiant mewn modd priodol gyda'ch esgobaeth.
2. yn llofnodi eich bod wedi darllen y llawlyfr ffuriant ac wedi deall eich cyfrifoldebau chi a'r disgwyliadau o ran ymrwymiad amser, presenoldeb ac ymddygiad.
3. yn llofnodi y byddwch yn parchu polisiau'r Eglwys yng Nghymru ac Athrofa Padarn Sant.

Llwybr dysgu / Learning Pathway	
Credydau a enillwyd eisoes yn TfL	

Modiwlau Diwnyddiaeth ar gyfer Bywyd wedi'i cwblhau eisioes		
Cyfeirnod	Teitl	Credydau

Y llwybr sydd i'w ddilyn yn 2022-3		
Lefel	Lefel 4 / Level	
	Lefel 5 / Level 5	
	Lefel 6 / Level 6	
MTh		
MPhil		
PhD		
Arall (rhowch y manylion)		
Say something in Welsh	Fluent/Basic/None	

Pa mor hir y disgwylir i'r hyfforddiant barhau	
Hyd yr hyfforddiant	

Y dyddiad y disgwylir ichi gael eich trwyddedu/ordeinio	
Tiwtor	

Unrhyw sylwadau ychwanegol

Llofnod: (Ymgeisydd)
Signature: (Candidate)

Dyddiad:
Date

.....

.....

Llofnod: (Dean)
Signature: (Dean)

Dyddiad:
Date:

.....

.....

Llofnod (Cyfarwyddwr Gweithrediadau)
Signature (Director of Operations)
(os ydi'r llwybr dysgu yn wahanol i'r arfer, bydd rhaid i'r CG arwyddo)

Dyddiad:

.....

.....

Os yw'r llywbr dysgu yn newid, arwyddir yma:

Part 2- Cofnod Ffuriant/ Record of Formation

Mae'r Cofnod Ffuriant yn ddogfen allweddol, a dyma lle y nodir eich cynnydd ffurfiannol. Caiff y ddirnadaeth a gawsoch o'ch cyfarfodydd ffuriant 1-1 gyda'ch tiwtor, yn ogystal â'ch nodau ffurfiannol eu nodi yma. Mae croeso i chi weld copi o'ch Cofnod Ffuriant ar unrhyw adeg.

Hyfforddiant/Training	
Lleoliad a goruchwyliwr:	

<p>Rhaid nodi unrhyw leoliadau newydd yma.</p> <p>Llofnod: (Tiwtor Mewn Addysg Cyd-destunol)</p> <p style="text-align: right;">Dyddiad:</p> <p><i>Date</i></p>	
<p>Unrhyw brofiadau gweinidogol ychwanegol?</p>	
<p>Arweinydd cell ffurfiannol</p>	
<p>Hwylusydd a grŵp (os yn rhan-amser</p>	
<p>TPM BL 1:</p>	
<p>TPM BI 2:</p>	
<p>TPM BI 3:</p>	
<p>Neu lwybr?</p>	

Sgiliau a phrofiadau perthnasol hyd yma

Empty space for skills and experiences
--

Cynnydd ffurfiannol

Cymwyseddau a nodau, cryfderau a chyfleoedd datblygu ffurfiannol

A. Hyder, Sicrwydd a Ffydd Aeddfed

Adeg eu trwyddedu neu eu hordeinio, bydd ymgeiswyr yn gallu siarad yn onest am eu perthynas bresennol â Duw, am le gweddi yn eu bywydau, am astudio'r Beibl ac am eu dibyniaeth ar rym yr Ysbryd. Byddant yn gallu myfyrio gyda hyder priodol ynghylch eu perthynas â Christ ac ynghylch yr hyn y gallant ei gyfrannu tuag at gymdeithas a'r Eglwys yn ogystal ag ynghylch eu lle hwy o fewn y ddau gyd-destun. Byddant eisoes wedi amlygu lefel dda o ddeallusrwydd emosiynol drwy gydol eu rhyngweithio wrth hyfforddi. Byddant yn gallu cyfleu'r modd mae'r hyder hwnnw ynghylch eu hunaniaeth yng Nghrist yn eu galluogi i weinidogaethu mewn ffordd greadigol a llawn dychymyg, gan fentro heb ofni methu. Byddant yn gallu cyfleu'r ffordd mae eu ffydd, wedi'i hysbrydoli gan astudio diwinyddiaeth a'r Beibl, ynghyd â gweddi, wedi eu cynnal drwy gyfnodau anodd yn ogystal ag adegau llawen yn eu bywydau.

B. Gweithio mewn tîm

Adeg eu trwyddedu neu eu hordeinio dylai ymgeiswyr amlygu brwdfrydedd dros weithio mewn tîm a gallu iach a gonest i fyfyrion ar brofiadau anodd yn ogystal â rhai cadarnhaol o weithio gydag eraill. Byddant yn gwybod yn iawn am y sgiliau a'r galluoedd y gallant eu cynnig i dimau, yn ogystal ag ynghylch eu diffygion a'u gwendidau wrth weithio gydag eraill. Agwedd bwysig ar eu hyfforddiant fu mynd i'r afael â rhai o'r diffygion a'r gwendidau hynny, a byddant yn gallu siarad yn agored ynghylch ble maent ar y daith honno. Byddant wedi dysgu sut i ymdrin yn effeithiol â chydberthynasau anodd a'u datrys. Byddant wedi myfyrio ynghylch eu rhan hwy eu hunain mewn gwrthdaro yn y gorffennol a'r hyn maent wedi'i ddysgu

amdanynt eu hunain a'r ffordd y gallent fod wedi ymdrin â sefyllfaoedd anodd yn well. Byddant wedi amlygu ymrwymiad i feithrin perthynas iach ag eraill.

C. Bod yn Greadigol, yn Hyblyg ac yn Abl i Ymaddasu

Adeg eu trwyddedu neu eu hordeinio, bydd ymgeiswyr wedi dangos bod ganddynt y sgiliau yn ogystal â'r anian i allu gweinidogaethu mewn cymdeithas sy'n newid yn barhaus, gan fod yn greadigol ac yn hyblyg. Byddant yn bobl sy'n parhau i ddysgu gydol eu hoes a byddant wedi dangos brwdfrydedd dros ddysgu. Byddant wedi amlygu hyder a pharodrwydd i roi cynnig ar bethau newydd. Byddant wedi dangos brwdfrydedd i rannu eu ffydd mewn ffyrdd sy'n pontio â'r rhai sy'n byw yn eu cymunedau. Byddant wedi amlygu gwytnwch ac ysbryd gobeithiol ar daith hyfforddiant a dirnadaeth, drwy eu hymwneud a'u rhyngweithio ag eraill. Byddant wedi dangos y gallu i weithio y tu hwnt i feysydd sy'n gynefin iddynt ac i roi cynnig ar fentrau newydd. I'r rhai sy'n hyfforddi ar gyfer gweinidogaeth arloesi bydd ganddynt brofiad o ddechrau a chynnal mentrau neu brosiectau.

CH. Wedi'u gwreiddio mewn Eglwysoleg ac Ysbrydolrwydd Anglicanaidd

Adeg eu trwyddedu neu eu hordeinio, bydd ymgeiswyr wedi ennill cymhwyster priodol mewn diwinyddiaeth ac yn gallu trafod mewn modd ystyrllon a diddorol y modd y bu i astudio diwinyddiaeth eu cynorthwyo i dyfu yn eu ffydd. Byddant yn gallu siarad yn wybodus am y Beibl ac am yr hanes, yr eglwysoleg a'r traddodiadau sy'n sail i fywyd yr Eglwys yng Nghymru. Byddant yn gallu dangos eu bod yn gallu tynnu o ffynhonnau dwfn gweddi ac ysbrydolrwydd Anglicanaidd i lywio a chynnal eu bywyd fel gweinidogion. Byddant wedi dangos eu bod yn ddisgybledig yn eu gweddio dyddiol, wrth astudio, addoli ac wrth encilio. Byddant yn amlygu dealltwriaeth o draddodiadau gwahanol i'r rhai maent fwyaf cyfforddus â hwy ac yn ymagweddu'n sensitif tuag atynt. Bydd ganddynt agwedd gadarnhaol tuag at y Gymraeg ac, yn achos ymgeiswyr llawn amser, byddant wedi cymryd camau i sicrhau y gallan gynnal gwasanaethau yn rhannol yn y Gymraeg a defnyddio rhywfaint o Gymraeg mewn sefyllfaoedd bugeiliol. Byddant yn hyderus wrth arwain addoliad mewn gwahanol ddulliau gwahanol ac wrth gyfleu neges y ffydd. Os ydynt yn

hyfforddi ar gyfer gweinidogaeth bregethu, byddant wedi datblygu'r gallu i bregethu mewn modd eglur a diddorol

D. Yn Frwd dros Genhadu ac wedi Ymrwymo i Dwf

Pan fyddant yn barod i'w hordeinio neu eu trwyddedu, bydd ymgeiswyr wedi dangos eu bod yn eangfrydig, yn genhadol eu hysbryd ac yn frwdfrydig dros rannu'r ffydd â'r werin bobl ledled ein gwlad mewn amrywiaeth o ddulliau. Yn eu ffyrdd eu hunain, byddant wedi amlygu ymroddiad ac egni i gofleidio ffydd sy'n fwy â o fudiad na sefydliad. Byddant yn gallu egluro'r ffydd mewn ffordd ddeniadol a bod yn llysgenhadon da i Grist. Byddant wedi amlygu ymrwymiad i weld twf yn yr Eglwys yng Nghymru a byddant yn dod yn gynyddol ymwybodol o'r ffactorau sy'n hybu neu'n llesteirio hynny, yn seiliedig ar eu hastudiaethau a'u profiad personol..

DD. Arweinwyr Strategol a Thywyswyr

Adeg eu trwyddedu neu eu hordeinio dylai ymgeiswyr fod wedi amlygu'r gallu i arwain eraill a'r gallu i ennill ymddiriedaeth a theyrngarwch y rhai y maent yn gweithio yn eu mysg. Er bydd y swyddogaethau arweiniol y byddant yn cael eu galw iddynt yn amrywio o ran cwmpas a maes, bydd angen i bob ymgeisydd am weinidogaeth amlygu dewrder, gwytnwch a'r gallu i ysbrydoli eraill. Byddant eisoes wedi ysbrydoli ac arfogi aelodau cynulleidfaoedd yn eu bywyd fel disgyblion a'u gweinidogaeth eu hunain, ac wedi hybu cydweithio mewn timau iach. Byddant yn deall pwysigrwydd gweithredu o fewn strwythurau goruchwylio.

Dyddiadau am amseroedd cyfarfodydd

Dylai cyfarfodydd Cofnodi Ffuriant ddigwydd yn rheolaidd rhwng yr ymgeisydd a'i diwtor / thiwtor personol. Ar gyfer ymgeiswyr amser llawn a rhan-amser, rydym yn argymhell wyth cyfarfod, 30-40 munud y flwyddyn.

- 1.
- 2.

- 3.
- 4.
- 5.
- 6.
- 7.
- 8.

Asbenoldeb

Rhowch fanylion unrhyw absenoldeb

Absenoldeb nad oedd modd ei
osgoi

Absenoldeb y gall fod angen ei nodi
yn yr adroddiad i'r Esgob



Ffurflen Hunanasesu

Dychwelwch y ffurflen hon at reporting@stpadarns.ac.uk

Cysylltwch â'ch tiwtor i drefnu cyfarfod i drafod eich adroddiad (dros y ffôn neu wyneb yn wyneb neu'n rhithiol).

Cofiwch gysylltu â'ch tiwtor os oes angen help arnoch i ysgrifennu'r hunanasesiad.

Enw:

Yr Esgobaeth sy'n noddi:

Gweinidogaeth/categori:

Nifer o flynyddoedd dan hyfforddiant:

Modd hyfforddi

Cwrs academaidd:

Lleoliad a goruchwylydd:

Unrhyw brofiadau gweinidogaethol ychwanegol?

Carfanau DYG (TPM) BI 1

BI 2

BI 3

Sgiliau a phrofiadau perthnasol cyn dechrau'r hyfforddiant:

Yn fyr, pa sgiliau trosglwyddadwy oedd gennych cyn yr hyfforddiant, a pha ran fu gennych yn y weinidogaeth cyn hynny?

Mae'r cwestiynau hyn yn adlewyrchu'r meini prawf felly defnyddiwch y rhain fel man cychwyn i archwilio'ch datblygiad - nid oes angen ateb pob cwestiwn, a dim ond os ydyn nhw'n eich helpu i archwilio'ch ymateb i'r gwahanol benawdau y dylech eu defnyddio. Yn yr un modd, os oes rhywbeth rydych chi am ei ddweud ond sydd heb ei adlewyrchu mewn cwestiwn, mae croeso i chi nodi'ch myfyrdod o dan y pennawd perthnasol. Mae croeso i chi ddileu'r cwestiynau ar ffurf pwyntiau bwled ar ôl i chi ymateb o dan bob pennawd.

Egwyddorion a Nodweddion

A. Hyder, Sicrwydd a Ffydd Aeddfed

Adeg eu trwyddedu neu eu hordeinio, bydd ymgeiswyr yn gallu siarad yn onest am eu perthynas bresennol â Duw, am le gweddi yn eu bywydau, am astudio'r Beibl ac am eu dibyniaeth ar rym yr Ysbryd. Byddant yn gallu myfyrio gyda hyder priodol ynghylch eu perthynas â Christ ac ynghylch yr hyn y gallant ei gyfrannu tuag at gymdeithas a'r Eglwys yn ogystal ag ynghylch eu lle hwy o fewn y ddau gyd-destun. Byddant eisoes wedi amlygu lefel dda o ddeallusrwydd emosiynol drwy gydol eu rhyngweithio wrth hyfforddi. Byddant yn gallu cyfleu'r modd mae'r hyder hwnnw ynghylch eu hunaniaeth yng Nghrist yn eu galluogi i weinidogaethu mewn ffordd greadigol a llawn dychymyg, gan fentro heb ofni methu. Byddant yn gallu cyfleu'r ffordd mae eu ffydd, wedi'i hysbrydoli gan astudio diwinyddiaeth a'r Beibl, ynghyd â gweddi, wedi eu cynnal drwy gyfnodau anodd yn ogystal ag adegau llawen yn eu bywydau.

- Sut mae eich perthynas â Duw wedi newid yn ystod eich hyfforddiant?
- Sut mae eich ffydd wedi aeddfedu?
- Sut mae eich dealltwriaeth o'r Beibl wedi datblygu?
- Sut ydych chi wedi magu hyder yn ystod eich hyfforddiant?
- Sut mae eich hyder wedi eich galluogi i feithrin perthynas adeiladol ag eraill yn ystod eich cyfnod hyfforddi?
- Sut mae dod yn fwy hyderus wedi eich galluogi i fod yn ddewr ac yn greadigol yn ystod eich hyfforddiant, yn enwedig ar leoliad?
- Sut mae eich twf mewn ffydd wedi eich cynorthwyo i wynebu llawenydd a thristwch yn ystod y cyfnod hyfforddi?

B. Gweithio mewn Tîm

Adeg eu trwyddedu neu eu hordeinio dylai ymgeiswyr amlygu brwdfrydedd dros weithio mewn tîm a gallu iach a gonest i fyfyrion ar brofiadau anodd yn ogystal â rhai cadarnhaol o weithio gydag eraill. Byddant yn gwybod yn iawn am y sgiliau a'r galluoedd y gallant eu cynnig i dimau, yn ogystal ag ynghylch eu diffygion a'u gwendidau wrth weithio gydag eraill. Agwedd bwysig ar eu hyfforddiant fu mynd i'r afael â rhai o'r diffygion a'r gwendidau hynny, a byddant yn gallu siarad yn agored ynghylch ble maent ar y daith honno. Byddant wedi dysgu sut i ymdrin yn effeithiol â chydberthynasau anodd a'u datrys. Byddant wedi myfyrio ynghylch eu rhan hwy eu hunain mewn gwrthdaro yn y gorffennol a'r hyn maent wedi'i ddysgu amdanynt eu hunain a'r ffordd y gallent fod wedi ymdrin â sefyllfaoedd anodd yn well. Byddant wedi amlygu ymrwymiad i feithrin perthynas iach ag eraill.

- Sut ydych chi'n synio am weithio mewn tîm wrth weinidogaethu?
- Beth yw'r cryfderau a'r gwendidau rydych chi'n eu cyfrannu i dîm?
- Beth fu eich profiadau cadarnhaol a negyddol o weithio mewn tîm yn ystod eich hyfforddiant?

- Sut ydych chi wedi cyfrannu at adeiladu'r gymuned yn eich gwahanol gymunedau ffurfiannol ac at ddatblygu perthynas iach a chadarnhaol ag eraill yn ystod eich cyfnod hyfforddi?
- Beth ydych chi wedi'i ddysgu amdanoch eich hun a'r ffordd rydych chi'n ymwneud ag eraill yn sgil eich hyfforddiant?

C. Bod yn Greadigol, yn Hyblyg ac yn Abl i Ymaddasu

Adeg eu trwyddedu neu eu hordeinio, bydd ymgeiswyr wedi dangos bod ganddynt y sgiliau yn ogystal â'r anian i allu gweinidogaethu mewn cymdeithas sy'n newid yn barhaus, gan fod yn greadigol ac yn hyblyg. Byddant yn bobl sy'n parhau i ddysgu gydol eu hoes a byddant wedi dangos brwdfrydedd dros ddysgu. Byddant wedi amlygu hyder a pharodrwydd i roi cynnig ar bethau newydd. Byddant wedi dangos brwdfrydedd i rannu eu ffydd mewn ffyrdd sy'n pontio â'r rhai sy'n byw yn eu cymunedau. Byddant wedi amlygu gwytnwch ac ysbryd gobeithiol ar daith hyfforddiant a dirnadaeth, drwy eu hymwneud a'u rhyngweithio ag eraill. Byddant wedi dangos y gallu i weithio y tu hwnt i feysydd sy'n gynefin iddynt ac i roi cynnig ar fentrau newydd. I'r rhai sy'n hyfforddi ar gyfer gweinidogaeth arloesi bydd ganddynt brofiad o ddechrau a chynnal mentrau neu brosiectau.

- Sut ydych chi wedi dangos hyblygrwydd a'r gallu i ymaddasu yn ystod eich cyfnod hyfforddi?
- Beth ydych chi wedi'i fwynhau fwyaf am eich dysgu wrth hyfforddi?
- Beth fu eich hoff fodiwl? Pam wnaethoch chi ei fwynhau?
- Beth sydd wedi bod yn newydd yn eich hyfforddiant a beth mae hynny wedi ei olygu i chi?

Ch. Wedi'u gwreiddio mewn Eglwysoleg ac Ysbrydolrwydd Anglicanaidd

Adeg eu trwyddedu neu eu hordeinio, bydd ymgeiswyr wedi ennill cymhwyster priodol mewn diwinyddiaeth ac yn gallu trafod mewn modd ystyrlon a diddorol y modd y bu i astudio diwinyddiaeth eu cynorthwyo i dyfu yn eu ffydd. Byddant yn gallu siarad yn wybodus am y Beibl ac am yr hanes, yr eglwysoleg a'r traddodiadau sy'n sail i fywyd yr Eglwys yng Nghymru. Byddant yn gallu dangos eu bod yn gallu tynnu o ffynhonnau dwfn gweddi ac ysbrydolrwydd Anglicanaidd i lywio a chynnal eu bywyd fel gweinidogion. Byddant wedi dangos eu bod yn ddisgybledig yn eu gweddio dyddiol, wrth astudio, addoli ac wrth encilio. Byddant yn amlygu dealltwriaeth o draddodiadau gwahanol i'r rhai maent fwyaf cyfforddus â hwy ac yn ymagweddu'n sensitif tuag atynt. Bydd ganddynt agwedd gadarnhaol tuag at y Gymraeg ac, yn achos ymgeiswyr llawn amser, byddant wedi cymryd camau i sicrhau y gallant gynnal gwasanaethau yn rhannol yn y Gymraeg a defnyddio rhywfaint o Gymraeg mewn sefyllfaoedd bugeiliol. Byddant yn hyderus wrth arwain addoliad mewn gwahanol ddulliau gwahanol ac wrth gyfleu neges y ffydd. Os ydynt yn hyfforddi ar gyfer gweinidogaeth bregethu, byddant wedi datblygu'r gallu i bregethu mewn modd eglur a diddorol.

- Disgrifiwch eich bywyd gweddi. Beth ydych chi wedi'i ddysgu yn ystod eich cyfnod hyfforddi a fydd yn cynorthwyo i ddatblygu a chynnal eich bywyd gweddi drwy gydol eich gweinidogaeth?

- Sut mae astudio diwinyddiaeth wedi cyfoethogi eich ffydd?
- Beth mae bod yn Anglicaniaid yn ei olygu i chi?
- Beth ydych chi wedi'i ddysgu am ffurfiau eraill o Anglicaniaeth a Christnogaeth yn ystod eich cyfnod hyfforddi?
- Beth yw eich agwedd tuag at y Gymraeg a diwylliannau Cymru? Beth ydych chi wedi'i ddysgu am ein cyd-destun ninnau wrth hyfforddi?
- Sut ymateb fu i'ch pregethu a beth ydych chi wedi'i ddysgu ynghylch pregethu yn ystod eich cyfnod hyfforddi?

D. Yn Frwd dros Genhadu ac wedi Ymrwymo i Dwf

Pan fyddant yn barod i'w hordeinio neu eu trwyddedu, bydd ymgeiswyr wedi dangos eu bod yn eangfrydig, yn genhadol eu hysbryd ac yn frwdfrydig dros rannu'r ffydd â'r werin bobl ledled ein gwlad mewn amrywiaeth o ddulliau. Yn eu ffyrdd eu hunain, byddant wedi amlygu ymroddiad ac egni i gofleidio ffydd sy'n fwy â o fudiad na sefydliad. Byddant yn gallu egluro'r ffydd mewn ffordd ddeniadol a bod yn llysgenhadon da i Grist. Byddant wedi amlygu ymrwymiad i weld twf yn yr Eglwys yng Nghymru a byddant yn dod yn gynyddol ymwybodol o'r ffactorau sy'n hybu neu'n llesteirio hynny, yn seiliedig ar eu hastudiaethau a'u profiad personol.

- Beth fu eich profiad o genhadu yn ystod eich lleoliad ac yn ystod y cyfnod hyfforddi yn fwy cyffredinol?
- Beth wnaethoch chi ddysgu drwy'r prosiect efengylu?
- Sut fyddech chi'n esbonio'r ffydd mewn ffordd sy'n ennyn diddordeb?
- Beth sy'n hybu neu'n llesteirio twf yn eich profiad chi – beth ydych chi wedi'i ddysgu ynghylch hynny drwy eich darllen, eich myfyrio a'ch astudio?

Dd. Arweinwyr Strategol a Thywyswyr

Adeg eu trwyddedu neu eu hordeinio dylai ymgeiswyr fod wedi amlygu'r gallu i arwain eraill a'r gallu i ennill ymddiriedaeth a theyrngarwch y rhai y maent yn gweithio yn eu mysg. Er bydd y swyddogaethau arweiniol y byddant yn cael eu galw iddynt yn amrywio o ran cwmpas a maes, bydd angen i bob ymgeisydd am weinidogaeth amlygu dewrder, gwytnwch a'r gallu i ysbrydoli eraill. Byddant eisoes wedi ysbrydoli ac arfogi aelodau cynulleidfaoedd yn eu bywyd fel disgyblion a'u gweinidogaeth eu hunain, ac wedi hybu cydweithio mewn timau iach. Byddant yn deall pwysigrwydd gweithredu o fewn strwythurau goruchwyllo.

- Beth ydych chi wedi'i ddysgu am eich dull chithau o arwain yn sgil eich hyfforddiant?
- Sut ydych chi wedi amlygu gwytnwch a dewrder a'r gallu i ysbrydoli eraill yn ystod eich cyfnod hyfforddi?
- A oes sgiliau ac adnoddau sydd wedi bod o gymorth i chi wrth feddwl am eich swyddogaeth yn y dyfodol?
- Sut ydych chi wedi annog eraill yn eu twf eu hunain mewn ffydd ac yn eu cenhadaeth a'u gweinidogaeth?
- Sut ydych chi wedi ymateb i arweinyddiaeth pobl eraill?
- Beth ydych chi wedi'i ddysgu am arweinyddiaeth drwy sylwi ar y rhai sydd wedi bod yn eich arwain a'ch cyfarwyddo a'ch ymateb iddynt?

Hyfforddiant a Datblygiad yn y Dyfodol

Beth yw eich nodau yn y tymor byr a'r tymor canolig o ran hyfforddiant parhaus a'ch datblygiad yn y dyfodol? Beth yw'r ffordd orau i (a) Padarn Sant a (b) yr Eglwys yng Nghymru sicrhau adnoddau ar gyfer yr amcanion hyn? A oes unrhyw feysydd penodol lle mae angen i chi wneud rhagor o waith?

Materion iechyd

A oes unrhyw faterion iechyd parhaus y dylem fod yn ymwybodol ohonyn nhw?

Sylwadau ychwanegol

A oes unrhyw sylwadau ychwanegol yr hoffech eu gwneud? A oes unrhyw anghenion cymorth neu deuluol yr hoffech i ni fod yn ymwybodol ohonyn nhw neu unrhyw fater arall sy'n ymwneud â'ch hyfforddiant?

Llofnodwch a dyddiwch y ffurflen hon ac e-bostiwch y ffurflen at reporting@stpadarns.ac.uk

Llofnod:

Dyddiad:

Adolygiad Blynyddol Cell Ffurfiannol

Enw'r Arweinydd Ffuriant Tywysydd Ffurfiannol:



Enw'r ymgeisydd:

Gwnewch sylw ar sut y bu i'r ymgeisydd ymgysylltu â'r grŵp.

Dangoswyd tystiolaeth o ymgysylltu â'r broses ffuriant yn y ffyrdd hyn:

Os oes unrhyw bryderon ynglŷn â'r ymgeisydd, trafodwch y rhain gydag ef, a hefyd rhowch fanylion a fydd yn cael eu rhannu â'r Cyfarwyddwr Ffuriant ar gyfer y Weinidogaeth Drwyddedig.

Nifer y Sesiynau a fynychwyd:

Llofnodwyd:

Dyddiad:

Tywysydd Ffurfiannol

Anfonwch gopi o'r ffurflen hon at y myfyriwr ac at reporting@stpadarns.ac.uk

Adroddiad Cell Ffurfiannol

Enw'r Arweinydd Ffurfiant:

Enw'r Ymgeisydd:

Soniwch am sut y bu'r ymgeisydd yn ymgysylltu â'r grŵp (e.e. a oedd yr ymgeisydd wedi paratoi a gyda rhywbeth i'w rannu'n rheolaidd, a wnaeth yr ymgeisydd arddangos parodrwydd/gallu i hunanfyfrio, a wnaeth yr ymgeisydd arddangos tystiolaeth o integreiddio gwahanol agweddu o'u hyfforddiant a'u ffurfiant, a wnaeth yr ymgeisydd gyfrannu'n gadarnhaol at ffurfiant eraill yn y grŵp, a oedd yr ymgeisydd yn parchu aelodau eraill y grŵp, ayb.?)

Tystiolaeth o ymgysylltu â'r broses ffurfio (Yn seiliedig ar gyfranogiad yr ymgeisydd yn y grŵp a'i fyfyrddodau/myfyrdodau personol, beth oedd y prif feysydd twf a datblygiad y buoch yn dyst iddyn nhw? Ym mha feysydd y gallai'r ymgeisydd elwa o ragor o hyfforddiant/ffurfiant? Gallai'r meysydd hynny gynnwys: dealltwriaeth o'r ffydd, ysbrydolrwydd ac addoli, cenhadaeth ac efengyliaeth, personoliaeth a chymeriad, perthnasoedd, arwain, ymarfer myfyriol.)

Nifer y sesiynau a fynychwyd:

Llofnod:

Dyddiad:

Arweinydd Ffurfiant

Anfonwch gopi o'r ffurflen hon at y myfyriwr ac at Reporting@stpadarns.ac.uk

Ffurflen absenoldeb o gyfnod preswyl DYG

Enw:

Esgobaeth:

Dyddiad y cyfnod preswyl:

Hoffwn wneud cais am ganiatâd i fod yn absennol o'r cyfnod preswyl uchod ar sail:

- a. Salwch
- b. Mater bugeiliol tymor byr
- c. Mater bugeiliol tymor hir
- d. Rhesymau personol arall (e.e. cyfnod preswyl yn gwrthdaro â digwyddiad teuluol pwysig, pen-blwydd Priodas Aur ac ati)

Rwy'n awdurdodi'r absenoldeb hwn

Llofnod :

Dyddiad:

Deon / Cyfarwyddwr Ffurfiant ar gyfer y Weinidogaeth Drwyddedig